



Adroddiad Blynyddol 2025-26

Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr

HC 432

Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr

Adroddiad Blynyddol 2025-26

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Adran 5A o Ddeddf Carchardai 1952

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 07 Gorffennaf 2026



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint i'w defnyddio.


Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents a
hmiprisons.justiceinspectores.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni i'r cyfeiriad canlynol:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gov.uk

ISBN: 978-1-5286-6653-4
E03563219 07/26

Cynnwys

Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud	7
Crynodeb o'r flwyddyn	9
Un Dynion yn y carchar	16
Dau Menywod yn y carchar	39
Tri Plant yn y ddalfa	44
Pedwar Cystodaeth llys	46
Pump Cadw mewnfudwyr	49
Chwech Incwm a gwariant	54
Saith Atodiadau	56



Cyflwyniad

gan y Prif Arolygydd Carchardai

Dyma'r chweched adroddiad blynyddol, a'r un olaf, i mi ei gynhyrchu yn ystod fy nghyfnod fel y Prif Arolygydd Carchardai. Ymgymerais â'r rôl yn ystod y pandemig, pan wnaeth penderfyniad fy rhagflaenydd ac ymroddiad y tim olygu bod yr Arolygiaeth, erbyn mis Ebrill 2020, yn ôl mewn manau cadw yn monitro triniaeth ac amodau carcharorion.

Yn ddigalon, bum mlynedd ar ôl i'r wlad ddod allan o'r cyfnod clo COVID-19 diwethaf, nid yw amser allan o'r gell ar gyfer carcharorion wedi gwella. Yn ein harolwg, dywedodd 34% o ddynion a 15% o fenywod eu bod yn treulio dros 22 awr dan glo yn ystod yr wythnos.

Mae diffyg gweithgarwch pwrpasol ystyrllon wedi bod yn feirniadaeth gyson gan yr Arolygiaeth ers ei sefydlu ym 1982, yn enwedig yn y carchardai derbyn Fictoraidd gorlawn. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi nodi dirywiad sy'n peri pryder mewn gweithgarwch a lefelau diogelwch carcharorion yn yr ystad hirdymor, ddiogel iawn lle mae'r rhan fwyaf o ddynion yn bwrw dedfrydau hir. Datgelodd archwiliadau o Swaleside, Wakefield, Whitemoor, Lodham Grange a Woodhill ac adroddiadau o Fanceinion, Ynys Wyth a Long Lartin a gyhoeddwyd ar ôl y flwyddyn adrodd hon lefelau dychrynlyd o amser allan o'r gell. Ychydig o gyfleoedd a welsom i ddynion ddangos gostyngiad yn eu lefelau risg neu gymryd rhan yn y math o weithgaredd ystyrllon a fyddai'n eu helpu i adsefydlu'n llwyddiannus a chael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

Pan nad oes llawer i gadw carcharorion yn brysur, maent yn aml yn troi at gyffuriau sydd ar gael yn rhwydd i basio'r amser. Mae gallu troseddwyd i ddefnyddio dronau i ddanfoni nwyddau contraband wedi trawsnewid y farchnad gyffuriau mewn llawer o garchardai. Mae'r dechnoleg wedi datblygu ac mae'r pecynnau wedi mynd yn fwy. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â chyffuriau sy'n cael eu defnyddio'n aml fel sbeis, cetamin a chocên, mae carcharorion bellach yn gallu archebu canabis a chyffuriau ffordd o fyw fel Ozempic, Minoxidil (ar gyfer colli gwallt) a steroidau anabolig yn ogystal â ffonau symudol, ffyn cof a gwefryddion. Yn yr ystad hirdymor, ddiogel iawn, gwelsom fethiannau sy'n peri pryder o ran diogelwch, gyda hyfforddiant staff annigonol, teledu cylch cyfyng wedi torri, rhwydi heb gael eu cyfnewid a ffenestri a oedd yn hawdd eu torri. Yn y rhan fwyaf o'r carchardai hyn, roedd lefelau brawychus o uchel o drais yn aml wedi'i ysgogi gan yr economi anghyfreithlon. Yn ein harolygon yn Swaleside a Wakefield, dywedodd 75% o ddynion eu bod wedi teimlo'n annigael.

Mae methiant ar draws y llywodraeth i gymryd y bygythiad diogelwch gwladol hwn o ddifrif yn golygu bod llawer o garchardai'n colli'r frwydr yn erbyn troseddu. Mae'n ymddangos bod ffigurau uwch mewn gangiau troseddu cyfundrefnol yn gweithredu'n ddiwrthwynebiad gan adeiladu rhwydweithiau carchardai llwyddiannus sy'n gwneud symiau enfawr o arian. Maent yn ecsbloetio'r carcharorion niferus sy'n gaeth i gyffuriau ac sydd â salwch meddwl, y mae eu teuluoedd yn aml yn gorfod talu dyledion sylweddol i atal ymosodiadau ar eu meibion neu eu partneriaid.

Pryderon yn bennaf ynghylch diogelwch carcharorion a staff a'm harweiniodd i gyhoeddi Hysbysiadau Brys ar gyfer Swaleside, Woodhill a Pentonville.

Mae rhwystredigaeth, diflastod ac anobaith yn gyrru'r galw am gyffuriau ar draws yr ystad ac eto mae'r gwasanaeth carchardai wedi methu â lleihau'r galw hwn. Ar wahân i lond llaw o eithriadau, anaml y mae adeiniau byw heb sylweddau dan gymhelliant, sydd wedi'u cynllunio

i gefnogi carcharorion i barhau i fod yn rhydd o gyffuriau, yn effeithiol o ran cefnogi adferiad y niferoedd uchel o bobl sy'n gaeth i gyffuriau yn y carchar. Mewn rhai achosion, mae adeiniau byw heb sylweddau dan gymhellant yn llawn o gyffuriau ac mae rhai eraill yn cael eu llenwi gan aelodau gangiau troseddau cyfundrefnol sy'n dewis byw ar wahân i'r anhrefn maent wedi'i greu mewn rhannau eraill o'r carchar. Ni fydd cyfran fawr o garcharorion yn gallu torri'r cylch troseddu a charcharu os na chynigir llwybr iddynt wella.

Yn ystod fy nghyfnod fel Prif Arolygydd, rwyf wedi pwysleisio dro ar ôl tro bwysigrwydd addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel wrth helpu carcharorion i fod mewn gwell sefyllfa i ymdopi â bywyd y tu mewn ac yn bwysicach pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod y gwasanaeth carchardai a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhannu fy uchelgais. Mewn llawer o garchardai, mae gwasanaethau wedi cael eu torri'n greulon ac mae llawer o athrawon wedi cael eu diswyddo. Mae presenoldeb mewn addysg, hyfforddiant a gwaith yn aml yn warthus a, gydag ambell eithriad nodedig, nid yw wedi cael ei flaenoriaethu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o garchardai. Mae diwrnodau gwaith yn hynod o fyr ac mae gweithdai ac ystafelloedd dosbarth yn aml yn cau cyn cinio ar ddydd Gwener, gan arwain at hyd yn oed mwy o gyfnodau dan glo dros y penwythnos.

Yn fwy cadarnhaol, roedd ein hadroddiad thematig 'Darllen ar gyfer adsefydlu', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, yn tynnu sylw at waith rhagorol a wnaed gan rai carchardai ym mhob categori i ymgorffori darllen ym mywyd y carchar. Yn y rhan fwyaf o garchardai, fodd bynnag, mae'r ffocws ar ddarllen yn ymylol ac nid oes hanner digon o sylw yn cael ei roi i gefnogi'r rhai sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae llawer gormod o bobl yn gadael y carchar ddim yn gallu darllen, sy'n wastraff dychrynlyd o gyfle i helpu carcharorion i weddnewid eu bywydau.

Mae perthnasoedd yn parhau i fod yn ganolog i lwyddiant y carchardai gorau. Roedd ein harchwiliad o garchar Magilligan gydag Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon yn arbennig o drawiadol - roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn rhagorol ac roedd amser allan o'r gell ymhlith y gorau roedd yr arolygwyr wedi'i weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae amodau byw mewn llawer o garchardai wedi dirywio lle nad yw gwaith arferol wedi'i gwblhau ac mae llawer o'r ystad yn edrych yn adfeiliedig ac yn hen. Mae prosesau cymhleth ar gyfer caffael contractwyr i wneud gwaith hanfodol yn golygu ei bod yn cymryd llawer gormod o amser i gwblhau gwaith adnewyddu sylfaenol hyd yn oed. Enghraifft nodweddiadol oedd Lincoln, lle buont yn aros am saith mlynedd am foeleri newydd tra'n gwario ffortiwn ar offer wedi'i logi. Ym Birmingham, safai craen enfawr heb ei ddefnyddio yng nghanol y carchar, cofeb i anallu'r gwasanaeth carchardai i gwblhau prosiect a oedd i fod i gael ei gwblhau flynyddoedd yn ôl. Ym Manceinion, roedd wedi cymryd llawer gormod o amser i gael caniatâd cynllunio ar gyfer ffenestri newydd a oedd yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn dronau.

Roedd y gefnogaeth i garcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau yn gymysg, gyda gormod yn gadael y carchar yn ddigartref. Mae cynnal cyswllt teuluol da yn hanfodol i blant, rhieni a phartneriaid, ac eto dim ond ychydig o garchardai sy'n greadigol iawn o ran y gwasanaeth maent yn ei ddarparu.

Yn y cyfamser, mae llywodraethwyr yn parhau i dreulio llawer gormod o amser ar brosesau Adnoddau Dynol heb gefnogaeth ddigonol ac maent yn dal i orfod dilyn rheolau hurt

sy'n golygu nad ydynt yn cael gwario mwy na £500 ar un eitem heb gael caniatâd uwch arweinwyr HMPPS. Mae'r bwlch rhwng yr hyn y dylai llywodraethwyr fod yn ei wneud, a'r ffordd y maent yn treulio eu hamser mewn gwirionedd, yn llawn pentwr o waith papur sy'n cynnwys ymateb i'r gyfarwydddeb ddiweddaraf gan y canol neu i geisiadau ailadroddus am ddata dibwys. Mae llywodraethwyr profiadol wedi dod o hyd i ffyrdd o reoli rhai o'r gofynion mwyaf diflas, ond mae'r rhai sydd wedi dechrau yn y rôl yn ddiweddar yn gorfod mynd drwy bob proses boenus. Mae oedi enfawr o ran fetio wedi effeithio ar recriwtio swyddogion a staff eraill, gan achosi rhwystredigaeth enfawr i lywodraethwyr, yn enwedig mewn carchardai sydd eisoes yn dioddef o brinder staff cronig.

Mewn mannau eraill, mae arweinyddiaeth effeithiol yn ystad y menywod wedi arwain at ganolbwyntio'n well ar anghenion penodol y menywod mwyaf agored i niwed. Er gwaethaf hyn, mae lefelau hunan-niweidio yn dal yn syfrdanol o uchel ac mae toriadau i addysg wedi creu cynnig culach. O ystyried pwysigrwydd cyswllt teuluol i fenywod yn y carchar, hoffwn weld ffocws o'r newydd ar wella'r ddarpariaeth i'r un safon ag yn y carchardai gorau i ddynion.

Ar wahân i'r sefydliad troseddwy'r ifanc effeithiol sy'n cael ei redeg yn dda yn y Parc, mae gweddill yr ystad ieuenctid yn dal yn rhy dreisgar o lawer. Er bod rhai ymdrechion wedi bod i leihau nifer y bechgyn sydd ddim yn gallu cymysgu â'u cymheiriaid, mae cyfyngiadau 'cadw ar wahân' yn dal i gael effaith niweidiol ar gyfundrefnau. Nid yw gormod o fechgyn yn cael digon o amser allan o'u celloedd yn ystod yr wythnos, ac mae'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn wael. Mae methiant cyson gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa i reoli ymddygiad yn effeithiol yn effeithio ar bob swyddogaeth yn yr ystad ieuenctid gan gynnwys addysg, gofal iechyd ac ymweliadau teuluol. Yn y rhan o'r ystad carchardai sy'n cael ei hariannu orau, mae gennyf gwestiynau difrifol am y ffordd y dyrennir adnoddau, gyda thîm canolog mawr iawn a chymarebau rheolwr-i-swyddog uchel iawn yn y Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc. Mae cyflwyno chwistrell analluogi PAVA wedi rhoi'r gallu i staff fynd i'r afael â thrais gyda mwy o rym, ond yn y rhan fwyaf o sefydliadau nid oes yr un o'r dulliau rheoli ymddygiad effeithiol na'r diwylliant cadarnhaol a welsom yn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc, lle'r oedd trais yn is ac nid oedd PAVA ar gael hyd yn oed. O ganlyniad i bryderon diogelu difrifol, cyhoeddais Hysbysiad Brys yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill.

Mae ein harchwiliadau o'r ystad fewnfudo wedi bod yn fwy cadarnhaol eleni; mae'r ffordd mae'r unigolion yn cael eu trin wedi bod yn weddus ar y cyfan, er ein bod wedi parhau i fod yn feirniadol o'r amodau tebyg iawn i garchar lle mae rhai'n cael eu cadw. Datgelodd ein hadolygiad yn Harmondsworth sefydliad sy'n cael ei arwain yn dda ac sydd wedi gwella'n fawr, ac roedd yr arolygwyr wedi'u plesio â'r hyn a ddarganfuwyd ganddynt yng nghanolfannau symud mewnfudwyr Dungavel a Derwentside. Dangosodd ein harchwiliadau o hediadau alltudio fod y Swyddfa Gartref a'i chontractwyr wedi cynnal gwelliannau i'r ffordd mae ceiswyr lloches yn cael eu trin.

Roedd arolygiadau o drefniadau cystodaeth y llysoedd yn parhau i ddangos gwell cydlynid rhwng asiantaethau a chontractwyr. Fe wnaethom dynnu sylw'n aml at ansawdd uchel y gofal a ddarperir gan staff i'r rheini yng nghelloedd y llys, ond roedd yr amodau mewn llawer o ystafelloedd yn dal yn llym.

Mae rhai rhesymau dros fod yn obeithiol am y dyfodol. Dros y misoedd diwethaf, mae newidiadau i'r polisi dedfrydu wedi arwain at ostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth

carchardai (er na fydd yn datrys y gorlenwi cronig mewn llawer o garchardai). Mae data o'r set ddiwethaf o ystadegau chwarterol yn dangos gostyngiad yn nifer yr ymosodiadau ac mae ein sgoriau arolygu diweddar wedi dangos rhai gwelliannau sydd i'w croesawu. Felly, mae gan y gwasanaeth carchardai gyfle i fynd i'r afael â llawer o'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, cyn i'r boblogaeth ddechrau tyfu eto.

Fodd bynnag, roedd yn siomedig nad oedd yr ymateb gwyllt i'r argyfwng poblogaeth carchardai diweddaraf yn canolbwyntio hanner digon ar bwysigrwydd adsefydlu effeithiol mewn lleihau'r niferoedd sy'n dod i'r carchar.

Mae'n amhosibl peidio â chadw rhywfaint o optimistiaeth pan fydd carchardai fel Rye Hill, Doncaster, Hatfield, Northumberland, Huntercombe, Send, Haverigg, Warren Hill a Lincoln yn dangos beth sy'n bosibl dan arweinyddiaeth llywodraethwyr rhagorol.

Yn anffodus, nid yw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi ceisio deall y rhesymau dros lwyddiant y carchardai mwyaf effeithiol yn y sectorau preifat a chyhoeddus na'u hefelychu mewn mannau eraill, yn enwedig yr ymreolaeth ychwanegol a roddir i gyfarwyddwyr mewn carchardai dan contract. Ar adegau, mae wedi teimlo bod y gwasanaeth carchardai'n fwy cyfforddus yn rheoli argyfwng, nag yn gwella safonau'n gyson. Mae deiliadaeth llywodraethwyr yn dal yn fyr o'i gymharu â gweithwyr proffesiynol eraill fel penaethiaid ysgolion, a dim ond dwsin o lywodraethwyr sy'n dal i redeg yr un carchar ag yr oeddent pan ddechreuais fel Prif Arolygydd yn 2020.

Ar gost o £59k y flwyddyn ar gyfer pob lle mewn carchar, mae gan y trethdalwr hawl i ddisgwyl mwy am ei arian. Mae'r carchardai gorau yn dangos i ni, os yw carcharorion yn byw mewn amgylchedd sydd â ffiniau clir, lle maent yn cael eu cymell i ymddwyn, yn cael eu paratoi i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau, yn cael cymorth dwys i wella ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau ac yn cael eu galluogi i gynnal cysylltiadau cryf â'u teuluoedd, ei bod yn bosibl lleihau'r gyfradd aildroseddu ac, yn hollbwysig, nifer y dioddefwyr troseddau. Mae'r dynion a'r menywod dewr sy'n gweithio yn ein carchardai yn haeddu dewrder cyfatebol gan wleidyddion ac ymdrech ddi-baid yn Whitehall a gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i chwalu'r rhwystrau sy'n atal arweinyddiaeth drawsnewidiol.

Hoffwn roi teyrnged i arweinwyr carchardai, staff llysoedd a chyfarwyddwyr canolfannau symud mewnfudwyr am y modd y maent wedi ymgysylltu â'r Arolygiaeth a minnau dros y pum mlynedd diwethaf. Gwn pa mor bersonol yw cael eich arolygu, ond hyd yn oed lle nad yw llywodraethwyr wedi cytuno â'n barn, maent bob amser wedi ymddwyn gydag urddas mawr, gan wneud gwaith nad yw'n aml yn cael y gydnabyddiaeth gyhoeddus mae'n ei haeddu. Hoffwn ddiolch hefyd i'r staff am y ffordd ddymunol y maent wedi cefnogi gwaith yr Arolygiaeth er eu bod mor brysur, yn ogystal â'r miloedd o garcharorion sydd wedi cyfrannu at ein dyfarniadau.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm tîm yn yr Arolygiaeth Carchardai. Mae wedi bod yn fraint enfawr i mi arwain grŵp mor arbennig ac ymroddedig o weithwyr proffesiynol dros y pum mlynedd a hanner diwethaf. Yn ogystal â'n harolygwyr, mae ein tîm ymchwil gwych a'n hysgrifenyddiaeth yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad, a does gen i ddim amheuaeth y bydd yn parhau i ffynnu fel corff cryf, annibynnol ac uchel ei barch o dan fy olynydd.

Charlie Taylor

Prif Arolygydd Carchardai

Pwy ydym ni a beth
rydym ni'n ei wneud



Ein pwrpas

Rydym yn arolygiaeth annibynnol dan arweiniad Prif Arolygydd Carchardai EF. Rydym yn craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a'r rhai hynny a gedwir dan glo, a'r ffordd maen nhw'n cael eu trin, ac rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau.

Rydym yn helpu i wneud yn siŵr bod unigolion yn cael eu cadw mewn ffordd sy'n ddynol, yn ddiogel, yn barchus, ac sy'n helpu i baratoi pobl ar gyfer cael eu rhyddhau cyn iddynt ddychwelyd i'r gymuned. Rydym yn gwneud hynny drwy gynnal arolygiadau annibynnol o garchardai, sefydliadau troseddwyd ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a llysoedd yng Nghymru a Lloegr a lleoliadau cadw mewnfudwyr ledled y DU.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau i roi gwybod i bobl am ein canfyddiadau ac yn dal y llywodraeth, a'r rheini sy'n rhedeg lleoliadau cadw, i gyfrif. Rydym hefyd yn nodi ac yn rhannu enghreifftiau o arferion cadarnhaol i gefnogi arweinwyr i ddysgu gan sefydliadau tebyg eraill.

Ein rôl ni yw taflu goleuni ar yr hyn sydd angen ei newid, ond ni allwn ei orfodi. Mater i arweinwyr yw ystyried y ffordd orau o ymateb i'n pryderon a defnyddio eu hadnoddau a'u harbenigedd i ddod o hyd i atebion. Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r Swyddfa Gartref weithio gyda sefydliadau i gefnogi'r cynnydd hwn.

Ein Disgwyliadau a phrofion sefydliad iach

Mae ein Disgwyliadau'n nodi'r meini prawf rydym yn eu defnyddio i arolygu carchardai a mathau eraill o ganolfannau cadw. Maent yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol ac fe'u defnyddir i archwilio pob agwedd ar fywyd yn y ddalfa.

Mae yna fersiwn wahanol o'r Disgwyliadau ar gyfer pob math o ddalfa rydym yn ei harolygu. Fodd bynnag, mae ein methodoleg arolygu sylfaenol yn gyson ar draws pob lleoliad sy'n ganolfan cadw. Mae'n cynnwys cyfres o ddyfarniadau thematig cyffredinol a elwir yn brofion sefydliad iach. Mae'r profion yn amrywio ychydig ond mae pob un wedi cael eu datblygu o'n pedwar prawf ar gyfer carchar iach, sef:


- **Diogelwch:** bod carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.
- **Parch:** bod carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.
- **Gweithgarwch pwrpasol:** bod carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.
- **Paratoi ar gyfer rhyddhau:** deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar; bod carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau, yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, a bod eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol, ac yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Arolygiaeth, yn ogystal â'n rhwymedigaethau rhyngwladol, ewch i'n gwefan: hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk

Crynodeb o'r flwyddyn

KEEP LOCKED

Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd - 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026



Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, fe wnaethom gyhoeddi 84 arolygiad, adolygiad annibynnol o gynnydd ac adroddiadau thematig.

Cystodaeth llys

- Arolygiad o dri maes dalfeydd y llys

Carchardai oedolion (Cymru a Lloegr)

- Arolygiadau llawn o 35 o garchardai sy'n dal dynion
- Arolygiadau llawn o bum carchar sy'n dal menywod
- Adolygiadau annibynnol o gynnydd mewn 16 carchar sy'n dal dynion ac un sy'n dal menywod

Sefydliadau sy'n dal plant a phobl ifanc

- Tri arolygiad llawn o sefydliadau troseddwy ifanc sy'n dal plant dan 18 oed
- Un arolygiad o Ganolfan Hyfforddi Diogel Oakhill ar y cyd ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal
- Un ymweliad monitro o Ganolfan Hyfforddi Diogel Oakhill ar y cyd ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal
- Un ymweliad sicrwydd o Ganolfan Hyfforddi Diogel Oakhill ar y cyd ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal

Cadw mewnfudwyr

- Arolygiad o dair canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr
- Adolygiadau annibynnol o gynnydd mewn dwy ganolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr
- Dau arolygiad cenedlaethol o gyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr
- Arolygiad o dri achos o symud unigolion ymlaen ar hediadau siarter dramor

All-awdurdodaeth

- Un arolygiad o garchar all-awdurdodaethol

Cyhoeddiadau eraill

Gwnaethom hefyd gyhoeddi'r cyhoeddiadau canlynol:

- Meithrin ymddiriedaeth: pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol mewn sefydliadau troseddwyr ifanc
- Plant yn y ddalfa 2024-25
- 'Jest passing time': Adolygiad o ddarpariaeth gwaith a hyfforddiant mewn carchardai i oedolion
- Darllen ar gyfer ailsefydlu
- Dadbacio eiddo carcharorion: Ffynhonnell gudd o wrthdaro a chwyno
- Diogelwch, llesiant a gobaith: Potensial heb ei wireddu cyswllt teuluol mewn carchardai
- 'Everything is after sentencing': Profiadau carcharorion ar remand
- Hardly working out: barriers to physical education in prisons

Sylwadau ysgrifenedig a thystiolaeth lafar

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom y cyflwyniadau ysgrifenedig canlynol i ymchwiliadau:

- Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi: Pwyllgor Deddf Awtistiaeth 2009 (Mehefin 2025)
- Y Pwyllgor Cyfiawnder: Plant ac Oedolion Ifanc yn yr Ystad Ddiogel. (Mawrth 2026)

Rhoesom dystiolaeth lafar i:

- Y Pwyllgor Cyfiawnder: Ymchwiliad Adsefydlu ac Ailsefydlu (Mai 2025)
- Y Pwyllgor Materion Cymreig: Ymchwiliad Carchardai, Prawf ac Adsefydlu yng Nghymru (Mai 2025)
- Ymchwiliad Covid-19 y DU: Plant a Phobl Ifanc (Modiwl 8) (Medi 2025)
- Ymchwiliad Covid-19 y DU: Effaith ar gymdeithas (Modiwl 10) (Chwefror 2026)


Fe wnaethom gyflwyno mewn un Grŵp Seneddol Hollbleidiol (APPG):

- APPG ar Faterion Cosb (Hydref 2025)

Ein hasesiadau

Dadansoddiad o'r asesiad carchar iach - carchardai i ddynion a menywod


Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai i ddynion a menywod sy'n oedolion (n=40) yng Nghymru a Lloegr, 2025/26



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Dadansoddiad o'r asesiad sefydliad iach - Sefydliadau Troseddwyr Ifanc


Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF o sefydliadau plant (n=3) yng Nghymru a Lloegr, 2025/26



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhdy

Dadansoddiad o'r asesiad sefydliad iach - Canolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr

Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF o ganolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr (n=3) yng Nghymru a Lloegr, 2025/26



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhdy

Cyhoeddwyd Pedwar Hysbysiad Brys

Yn 2025-26, roeddem mor bryderus ynghylch yr hyn a welsom yn ein harchwiliadau o Garchardai Pentonville, Swaleside a Woodhill yn yr ystad oedolion, a Chanolfan Hyfforddiant Diogel Oakhill yn yr ystad plant, fel ein bod wedi rhoi'r broses Hysbysiad Brys ar waith. Ar gyfer pob carchar, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymateb yn gyhoeddus i'n pryderon o fewn 28 diwrnod gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwella.

Woodhill - cyhoeddwyd ar 19 Mawrth 2026

Dyma'r ail hysbysiad brys ar gyfer Woodhill sydd, er gwaethaf y gefnogaeth sylweddol y mae wedi'i chael, wedi dirywio ers ein harolygiad yn 2023. Roedd cyfraddau trais yn uchel iawn, roedd cyfradd yr ymosodiadau difrifol ar staff yr uchaf yn yr ystad ddiogel iawn hirdymor ac roedd cyffuriau ar gael yn llawer rhy hawdd.

Canolfan Hyfforddi Diogel Oakhill - cyhoeddwyd ar y cyd ag Ofsted ar 30 Gorffennaf 2025

Roedd methiannau difrifol a systemig dwys yn golygu bod plant wedi bod ac yn parhau i fod mewn perygl o niwed yn y Ganolfan Hyfforddi Diogel. Roedd y systemau diogelu yn anhrefnus ac roedd ymddygiad y staff yn destun pryder sylweddol. Roedd rhai plant hefyd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cymheiriaid am gyfnodau hir.

Pentonville - cyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2025

Nid oedd gan arweinwyr Pentonville ddigon o afael ar feysydd darparu hanfodol yn y carchar ac nid oeddent yn llwyddo i sicrhau bod hyd yn oed y safonau mwyaf sylfaenol yn cael eu cynnal. Yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd llawer o garcharorion wedi cael eu carcharu'n anghyfreithlon y tu hwnt i'w dyddiad rhyddhau ac roedd y gofal a'r cymorth oedd yn cael eu cynnig i garcharorion newydd yn ystod eu dyddiau cyntaf yn y carchar yn gwbl annigonol.

Swaleside - cyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2025

Cafodd y carchar ein sgoriau isaf ym mhob un o'r pedwar prawf carchar iach ac nid oedd unrhyw un o'r pryderon a godwyd gennym yn ein harolwg yn 2023 wedi cael sylw llawn. Roedd lefelau uchel iawn o drais yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd yn y carchar, roedd cymryd cyffuriau yn rhemp ac roedd diffyg trefn a rheolaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r adeiniau yn fudr ac roedd trefn ddiwygiedig newydd yn cyfyngu'n ddifrifol ar amser y rhan fwyaf o garcharorion allan o'r gell.

Gallwch ddod o hyd i'n holl asesiadau sefydliadau iach ar gyfer 2025/26, nifer y pryderon sy'n cael eu derbyn a'u trin gan sefydliadau, a dadansoddiadau o ymatebion arolwg ar gyfer carchardai dynion a menywod sy'n oedolion, sefydliadau plant a chanolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr ar ein gwefan.

Mae gwybodaeth arall sydd ar gael drwy ein gwefan yn cynnwys arferion cadarnhaol nodedig a gasglwyd drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â dadansoddiadau o ymatebion i'n harolwg staff.

hmiprisons.justiceinspectors.gov.uk


Un Dynion yn y carchar



Ystadegau allweddol

Dadansoddiad o asesiad carchar iach


Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai i ddynion sy'n oedolion (n=35) yng Nghymru a Lloegr, 2025/26



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Mae asesiadau carchar iach yn dangos bod carchardai lleol a charchardai hyfforddi gyda chanlyniadau gwaeth i garcharorion

Cyfran y carchardai dynion sy'n oedolion (n=35) a gafodd asesiadau 'Da' neu 'Gweddol dda' o ran diogelwch yng Nghymru a Lloegr yn 2025-26.



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Cyffuriau – bygythiad difrifol

- **Roedd cyffuriau'n tanseilio diogelwch gormod o garchardai dynion, gan sbarduno trais, bwlio, dyled a hunan-niweidio.**
- **Nid oedd arweinwyr yn rhoi digon o sylw i sbardunau galw allweddol a phrin oedd gwaith cadarnhaol yn canolbwyntio ar adferiad.**
- **Roedd cyffuriau'n rhoi pwysau ychwanegol ar staff gofal iechyd.**

Roedd argaeledd cyffuriau anghyfreithlon, yn aml wedi'u cyflenwi gan ddronau, yn parhau i fod y bygythiad mwyaf i ddiogelwch a sefydlogrwydd ar draws yr ystad i ddynion, yn enwedig mewn carchardai categori B ac C. Yn ein harolwg carcharorion, dywedodd 41% o'r ymatebwyr wrthym ei bod yn hawdd cael cyffuriau yn eu carchar, ac roedd y ffigur yn dal yn ystyfnig o uchel ar 57% mewn carchardai hyfforddi Categori B. Roedd cyfraddau profion cyffuriau gorfodol yn dangos problem enfawr; roedd 46% o garcharorion Lerpwl wedi cael canlyniad positif, ymysg yr uchaf o'r carchardai derbyn a arolygwyd gennym. Yn Swaleside, roedd y gyfradd yn 34%, ond roedd nifer y carcharorion a wrthododd gael eu profi yn golygu bod arweinwyr yn amcangyfrif bod y defnydd gwirioneddol yn debygol o fod yn agosach at 50%.

Er gwaethaf effaith ddinistriol cyffuriau ar ddiogelwch carchardai, roedd rhai arweinwyr wedi gohirio profion a doedd dim modd iddynt fesur maint eu problem. Yn Guys Marsh a Coldley, dim ond rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn cyn ein hymweliad yr oedd y profion wedi ailddechrau. Yn bryderus, fe wnaeth tua 40% o garcharorion gael canlyniad positif yn y ddau safle. Roedd asesiadau tactegol lleol hefyd yn aml yn generig ac yn ailadroddus, gan adael arweinwyr yn ddall i risgiau sy'n codi. Er gwaethaf llif da o wybodaeth gan staff, roedd ôl-groniadau wrth ddadansoddi adroddiadau a diffyg swyddogion hyfforddedig yn achosi oedi wrth chwilio a phrofi'n brydlon y carcharorion hynny yr amheuir eu bod yn cymryd cyffuriau.

Roedd canlyniadau cyffuriau yn amlwg, yn sbarduno trais, bwlio, dyled a hunan-niweidio. Mewn rhai carchardai, gan gynnwys Parc a Birmingham, fe wnaethant hefyd arwain at nifer o farwolaethau ymysg carcharorion ers ein harolygiadau diwethaf (gweler tudalen 22).

Roedd technoleg yn chwarae rhan bwysig o ran tarfu ar nwyddau contraband, a gwelsom ddefnydd da o sganwyr corff, teledu cylch cyfyng a gwrthfesurau drôn. Fodd bynnag, tanseiliwyd y cynnydd gan ddiffyg mesurau diogelwch ffisegol eraill, gan gynnwys diogelwch gatieu, ffenestri a rhwydi.

Roedd gwendidau o ran diogelwch ffisegol yn caniatáu i lawer iawn o gyffuriau anghyfreithlon gael eu danfon gan ddronau. Roedd argaeledd cyffuriau yn sbarduno cynnydd mewn trais. Roedd y gyfradd positif ar gyfer profion cyffuriau gorfodol ymhlith yr uchaf ar gyfer y math hwn o garchar. **Bullington**

Nid oedd arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar fesurau i leihau'r galw am gyffuriau, fel amodau byw teilwng, trefniadau pwrpasol a pherthnasoedd ystyrlon rhwng staff a carcharorion. Yn rhy aml, nid oedd bywyd yn y carchar yn cynnig llawer o obaith a phrin oedd y cyfleoedd i'w helpu i newid eu hymddygiad. Roedd ansawdd yr adeiniau

byw heb sylweddau dan gymhelliant yn amrywio. Fe wnaethom adrodd yn gadarnhaol ar eu heffaith mewn carchardai gan gynnwys Lewes, ond yn Leeds roedd yr adain byw heb sylweddau dan gymhelliant yn rhy fawr ac roedd pwysau poblogaeth yn golygu nad oedd lleoedd wedi'u cyfyngu i rai oedd yn dymuno byw heb sylweddau.

Roedd Warren Hill, carchar categori C y gall carcharorion sy'n bwrw dedfrydau hir wneud cais ar ei gyfer, yn mynd yn groes i'r duedd hon gydag ethos adsefydlu cryf a oedd yn cefnogi dynion i wneud cynnydd. Roedd canlyniadau clir hefyd i ymddygiad gwael a oedd yn annog pobl i beidio â defnyddio cyffuriau. Roedd cyfradd y profion cyffuriau gorfodol positif (3%) yr isaf ymysg carchardai categori C, er bod traean o'r boblogaeth yn cael eu cefnogi gan wasanaethau adfer cyffuriau.

Cafwyd gwaith cadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar adferiad yn Featherstone, ac yn Doncaster, fe wnaeth penodi arbenigwr adfer cyffuriau ac alcohol (a oedd â phrofiad o ddibyniaeth), gryfhau'r gwaith o leihau'r galw. Roedd defnyddio dyfarniadau adsefydlu yn effeithiol yn Northumberland a Lerpwl yn annog carcharorion i ofyn am help gyda'u dibyniaeth.



O'r chwith i'r dde: Arddangosfa'r ardal gymunedol adain byw heb sylweddau dan gymhelliant a'r rhaglen adfer cyffuriau yn Featherstone

Mewn llawer o garchardai roedd cyffuriau'n rhoi straen cynyddol ar staff gofal iechyd oedd yn gorfod blaenoriaethu ymatebion brys i ddigwyddiadau cyffuriau a chamau i leihau niwed i nifer cynyddol o ddefnyddwyr rheolaidd, yn ogystal â nifer uchel o garcharorion oedd wedi cael eu galw'n ôl am gyfnod byr. Roedd hyn yn lleihau'r amser oedd ar gael i ddarparu ymyriadau a fyddai'n cefnogi adferiad tymor hir ac apwyntiadau meddygol arferol eraill. Roedd nifer yr adeiniau adfer yn cynyddu, ond roedd y rhan fwyaf yn cael trafferth cynnal amgylchedd heb gyffuriau oherwydd meini prawf dewis gwael, cymhellion cyfyngedig a phrosesau diffygiol o ran profi am gyffuriau. Fodd bynnag, roedd rhai unedau, fel yn Featherstone, yn gweithio'n dda.

Yn fwy cadarnhaol, fe welsom gynydd yn y defnydd o bigiadau amnewid opiadau gweithrediad hir. Roedd y rhain yn caniatáu i garcharorion gymryd rhan yn fwy effeithiol mewn gweithgareddau ac yn lleihau nifer y dynion oedd yn ciwio bob dydd wrth ddeorfeydd meddyginiaethau a difyrrwch cyffuriau. Fodd bynnag, mewn nifer o garchardai, fe wnaethom barhau i nodi goruchwyliaeth annigonol o'r ciwiau hyn a diffyg goruchwyliaeth o feddyginiaethau. Yn gadarnhaol, bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o Nalaxone sy'n gwrthdroi effeithiau angheuol opiadau ac yn lleihau'r risg o orddos ar ôl rhyddhau.

Trais cynyddol a rheoli ymddygiad yn aneffeithiol

- **Roedd trais wedi cynyddu mewn dwy ran o dair o'r carchardai a arolygwyd, ond anaml yr oedd prosesau dyfarnu a chynlluniau cymhelliant carchardai yn effeithiol.**

Roedd trais wedi cynyddu mewn dwy ran o dair o'r carchardai a arolygwyd gennym, ac roedd ymosodiadau difrifol wedi codi mewn 40%. Roedd nifer o laddiadau proffil uchel wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys mewn carchardai diogelwch uchel. Felly, nid oedd yn syndod bod un o bob pedwar o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg carcharorion yn dweud eu bod yn teimlo'n anniogel ar adeg ei lenwi.

Yn 2025, roedd chwe charcharor gwahanol wedi dioddef ymosodiad ar eu noson gyntaf, ac roedd rhai wedi cael eu trywanu yn ystod y digwyddiadau hyn. Roedd yr ymosodiadau fel arfer wedi'u hachosi gan wrthdaro a oedd eisoes yn bodoli. Roedd rhai o'r digwyddiadau wedi digwydd o fewn munudau i'r carcharor gyrraedd yr adain, ac roedd rhai ar raddfa fawr; targedwyd un dyn gan 14 o unigolion. **Swaleside**

Roedd trais yn gysylltiedig yn bennaf ag argaeledd cyffuriau anghyfreithlon a dyledion cysylltiedig, materion yn ymwneud â gangiau, a diflastod yn deillio o gyfundrefnau cyfyngedig. Roedd yr ymatebion yn cynnwys defnyddio mesurau gwahanu, dyfarniadau, a chynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd, ac roedd eu heffeithiolrwydd yn amrywio ar draws yr ystad.

Roedd ansawdd ac effaith cynlluniau cymhelliant carchardai i gymell ymddygiad da fel arfer yn wael neu ddim yn bodoli o gwbl. Yn rhy aml nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y lefelau cymhelliant, ac nid oedd gwobrau'n ystyrlon nac yn cael eu defnyddio'n gyson, felly nid oedd gan y cynlluniau lawer o hygrededd ymysg y carcharorion. Yn gadarnhaol, roedd arweinwyr yn Lincoln wedi cysylltu cymhellion â gweithgareddau gyda'r nos a gwell profiadau teuluol, pethau roedd y carcharorion yn eu gwerthfawrogi, ac yng ngharchardai agored Prescoed a Haverigg, roedd dynion yn cael eu cymell gan y cyfleoedd i gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Yn Isis, roedd arweinwyr yn ceisio mynd i'r afael â lefelau uchel o drais a chadw rhestrau gwahanu drwy strategaeth ddiogelwch newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwobrau ar unwaith am ymddygiad da, adain uwch sy'n cael ei rhedeg yn dda ac uned bwrpasol i reoli'r carcharorion mwyaf treisgar drwy ymyriadau a chymorth.

Yn rhai o'r carchardai mwyaf treisgar, gan gynnwys y Parc, roeddem yn bryderus o ganfod bod gwrandawiadau dyfarnu yn aml yn cael eu gohirio neu eu terfynu. Roedd hyn yn tanseilio effaith ataliol y broses ac mewn rhai achosion yn gadael achosion difrifol iawn heb eu cosbi.

Cafodd cyfran sylweddol o achosion naill ai'n cael eu diystyru (17%) oherwydd diffyg tystiolaeth neu ddim yn cael eu gweithredu (26%) oherwydd gwallau gweinyddol neu oedi gormodol. Adeg yr arolygiad, roedd ôl-groniad o dros 200 o ddyfarniadau, hanner ohonynt gyda'r heddlu. O ganlyniad, dim ond 42% o ddyfarniadau a gafodd eu profi.

Pentonville

Yn rhy aml, nid oedd strategaethau lleihau trais yn canolbwyntio ar faterion ehangach a oedd â'r potensial i atal ymddygiad gwael, fel mynediad at weithgarwch pwrpasol. Roedd ymddygiad yn well pan oedd canlyniadau clir am dorri'r rheolau, a gwobrau ystyrlon i'r rhai a oedd yn ymddwyn.

... roedd arweinwyr yn ymwybodol o wendidau'r cynllun cymhelliant ac wedi rhoi sawl cynllun newydd ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys yr uned uwch ar Kingfisher, mynediad at gyfleusterau coginio, yr opsiwn i fwyta prydau gyda'u cymheiriaid ac unedau byw heb sylweddau gyda chymhelliant. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cymhellion newydd hyn ac roedd gan arweinwyr gynlluniau datblygedig i ehangu mynediad.' **Feltham B**

Gwelsom arferion cadarnhaol i leihau trais mewn nifer o garchardai, gan gynnwys defnyddio dulliau datrys gwrthdaro, rhaglenni strwythuredig wedi'u targedu at garcharorion sydd mewn gangiau, cynlluniau rheoli dyledion, ac amnestau arfau. Yn ogystal, cafodd cymorth gan gymheiriaid wedi'i reoli'n dda ei ymgorffori yn y strategaethau diogelwch mwy effeithiol. Mewn lleiafrif o garchardai, gan gynnwys Haverigg a Warren Hill, cynigiodd arweinwyr gyfuniad o ymyriadau a chymhellion oedd wedi'u gwreiddio mewn diwylliant ehangach oedd yn hyrwyddo cymuned, cyfrifoldeb ac ymgysylltu. Nid oedd yn syndod mai'r rhain oedd y carchardai mwyaf diogel a arolygwyd gennym.

Anaml iawn y mae gwahanu'n gadarnhaol nac yn adsefydlu

Yn ein harolwg carcharorion, roedd 19% o'r ymatebwyr wedi cael eu gwahanu yn ystod y chwe mis cyn ein harolygiad. Er bod y rhan fwyaf o arosiadau'n gymharol fyr, anaml iawn yr oedd y profiad yn gadarnhaol neu'n adsefydlu ac nid oedd digon o oruchwyliaeth gan arweinwyr i sbarduno gwelliant.

Roedd amodau byw yn y rhan fwyaf o unedau gwahanu yn wael ac roedd carcharorion yn cael eu cloi mewn celloedd llwm heb lawer o ddodrefn am dros 23 awr y dydd. Nid oedd y drefn yn cynnig llawer mwy na hawliau sylfaenol ac anaml y gwelsom dystiolaeth o waith adeiladol i helpu carcharorion i ddeall neu fynd i'r afael â'u hymddygiad. Roedd cynlluniau i ailintegreiddio carcharorion i adeiniau prif ffrwd yn aml yn generig ac nid oeddent yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad gwael.

Gwelsom ganlyniadau mwy cadarnhaol yn Fosse Way a Doncaster, lle roedd cyfranogiad y tîm seicoleg a chefnogaeth i staff yn fuddiol.

Roedd y defnydd o rym ar gynydd

Parhaodd y defnydd o rym yn erbyn carcharorion i gynyddu yn ystod 2025, yn fwyaf nodedig y defnydd o chwistrell analluogi PAVA a gynyddodd 13%.

Roedd goruchwyliaeth gryf o rym gan arweinwyr mewn ychydig dros hanner y carchardai a arolygwyd gennym, ond gwelsom ormod o enghreifftiau o arferion gwael oedd ddim yn cael eu nodi na'u herio. Gwelsom ddefnydd amhriodol o PAVA mewn sawl carchar, er bod Berwyn, Ranby a Bullingdon wedi nodi a chymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Fe wnaethom nodi defnydd gwael o gamerâu fideo a wisgir ar y corff ym mron hanner ein harolygiadau, ac roedd hyn yn cyfyngu ar y dystiolaeth a oedd ar gael i gyfiawnhau defnyddio grym, er bod arweinwyr yn Pentonville a Lerpwl yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r problem hon. Roedd carcharorion wedi cael eu rhoi mewn llety arbennig heb awdurdod priodol mewn traean o'r carchardai a arolygwyd.

Mae hunan-niweidio a marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yn rhy gyffredin

- **Roedd mwy o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau, a bu cynnydd mewn hunan-niweidio mewn ychydig dros draean o'r carchardai a arolygwyd gennym.**
- **Roedd cyrhaeddiadau hwyr o'r llys a throsiad uchel o garcharorion yn tanseilio diogelwch yn y dyddiau cynnar.**

Yn y rhan fwyaf o'r carchardai a arolygwyd gennym, bu o leiaf un farwolaeth a achoswyd gan yr unigolion eu hunain ers ein harolygiad blaenorol. Mewn sawl carchar derbyn, bu nifer o hunanladdiadau, gan gynnwys yn Leeds lle bu 16 ers ein harolygiad diwethaf yn 2023. Er gwaethaf yr ystadegau brawychus hyn, yn hanner y carchardai lle bu hunanladdiad gwelsom eu bod yn darparu goruchwyliaeth wael wrth weithredu argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i leihau'r risg o ragor o ddigwyddiadau.

Fe wnaethom hefyd adrodd ar nifer cynyddol o farwolaethau oedd yn gysylltiedig â defnyddio sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys yn y Parc, lle bu o leiaf wyth marwolaeth ers ein harolygiad 2022 oedd yn cael eu hamau neu wedi'u cadarnhau fel rhai a achoswyd gan gamddefnyddio cyffuriau (gweler tudalen 18).

Dywedodd ychydig dros draean o'r carchardai a arolygwyd gennym fod cyfraddau hunan-niweidio wedi cynyddu, ac roedd llawer ohonynt wedi gweld cynnydd sylweddol. Yn Guys Marsh roedd nifer yr achosion wedi cynyddu 144% ac yn Northumberland roeddent wedi dyblu. Mewn gormod o achosion, roedd arweinwyr naill ai wedi methu ag ymchwilio i achosion o hunan-niweidio difrifol neu wedi cynnal ymchwiliadau annigonol heb ddigon o ddyfnder i helpu staff i ddeall yr achosion neu atal digwyddiadau yn y dyfodol.

Roedd carcharorion a oedd yn hunan-niweidio yn dal i gael eu cefnogi drwy reoli achosion asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm, er bod ansawdd y broses a lefelau gofal yn dal yn rhy amrywiol. Mewn nifer fach o garchardai, roedd arweinwyr yn monitro amllder ac ansawdd archwiliadau lles ar garcharorion agored i niwed gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng yr adain.

Roedd cyfraddau hunan-niweidio yn is mewn carchardai lle roedd arweinwyr wedi creu diwylliannau cadarnhaol, gyda pherthnasoedd da, amodau byw gweddus a mynediad at waith ac addysg. Roedd gwaith cymheiriaid yn aml yn ffactor amddiffynnol; yn Ranby, roedd mentoriaid iechyd meddwl yn darparu cymorth emosiynol da i garcharorion a oedd yn cael trafferth ymdopi.

Yn y rhan fwyaf o garchardai, roedd y cynllun Gwrandawyr, lle mae carcharorion yn cael eu hyfforddi gan y Samariaid i ddarparu cymorth cyfrinachol i'w cymheiriaid, yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif mawr nid oedd arweinwyr wedi darparu digon o gymorth i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol; nid oedd digon o garcharorion wedi cael eu hyfforddi, nid oedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol, ac nid oedd lle penodol i hwyluso cyfarfodydd preifat pan oedd carcharorion mewn argyfwng.

Roedd timau diogelwch pwrpasol gydag adnoddau digonol a'r defnydd o fannau priodol yn gwneud gwahaniaeth mewn rhai carchardai.

Roedd y ganolfan dalfa fwy diogel newydd, a ddatblygwyd ar y cyd gan reolwyr canol y carchar a'r tîm seicoleg, yn cynnig lle tawel i ffwrdd o'r prif flociau i garcharorion mewn argyfwng. Yma gallent gael gafael ar offer ymarfer corff, sesiynau celf a sesiynau creadigol... Roedd y dynion y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am allu defnyddio'r cyfleusterau. **Doncaster**

Dyddiau cynnar yn y carchar

Roedd diogelwch yn ystod y dyddiau cynnar yn y ddalfa yn cael ei danseilio'n rhy aml gan bobl a oedd yn cyrraedd yn hwyr o'r llys a'r pwysau o reoli nifer fawr o ddynion a oedd yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r carchar, a oedd wedi dwysáu gyda mesurau ychwanegol i reoli lefelau poblogaeth (gweler tudalen 34). Roedd hyn yn broblem benodol mewn carchardai derbyn prysur, lle roedd dynion yn aml yn cael eu cloi ar eu noson gyntaf mewn celloedd budr heb gawod, pryd o fwyd na galwad ffôn gartref.

“Roedd y gofal a'r gefnogaeth a gynigiwyd i garcharorion newydd yn ystod eu dyddiau cyntaf yn y carchar yn gwbl annigonol. Roedd y noson gyntaf a'r trefniadau cynefino yn ddi-drefn a hyd yn oed yn frawychus. Roedd dynion yn cael eu cadw mewn celloedd budr heb offer priodol, ac roedd eitemau pwysig ar goll, gan gynnwys dillad gwely, dodrefn, ffonau a chlustogau.” **Hysbysiad Brys Pentonville**

Roedd profiad carcharorion o'u cyflwyno i fywyd yn y carchar yn rhy amrywiol ac, mewn llawer o achosion, nid oeddent wedi cael sesiwn gynefino effeithiol na chynhwysfawr.

Roedd y drefn ar unedau cynefino yn wael yn y rhan fwyaf o garchardai, gan adael dynion dan glo am fwy nag 20 awr y dydd heb lawer o weithgarwch pwrpasol na chyswllt â charcharorion eraill. Fe wnaethom nodi'n aml fod carcharorion yn aros yn rhy hir i gael rhifau ffôn wedi'u cymeradwyo, a bod mynediad cyfyngedig at siopau carchar i brynu credyd ffôn yn anochel yn gwaethygu teimladau o unigrwydd ac ofn.

Roedd arweinwyr mewn rhai carchardai yn darparu gwell goruchwyliaeth ac yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dyddiau cynnar yn y ddalfa. Roeddent wedi cymryd camau i leihau'r pwysau mae carcharorion newydd yn ei deimlo, er enghraifft rhoi blaensymiau ar gyfer prynu o siopau i'w hatal rhag cronni dyledion a darparu systemau cymorth gan gymheiriaid effeithiol.

Llawer rhy ychydig o weithgarwch ystyrlon neu waith adsefydlu


- Roedd cyfnodau hir dan glo yn arwain at rwystredigaeth ac unigrwydd.
- Roedd problemau systemig yn creu heriau o ran cael carcharorion i mewn i addysg, sgiliau a gwaith.
- Er gwaethaf yr heriau, canfu ein hadolygiad thematig o ddarllen rai enghreifftiau rhagorol o arweinwyr ymroddedig yn gwreiddio darllen yn niwylliant eu carchar.

Gweithgarwch pwrpasol oedd yn parhau i berfformio waethaf o'n profion carchar iach, gyda 28 o'r 35 carchar i ddynion a arolygwyd gennym yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried yn 'wael' neu 'ddim yn ddigon da'. Roedd sgoriau mewn dwy ran o dair o'r carchardai wedi aros yr un fath neu wedi gostwng ers i ni eu harolygu ddiwethaf.

Ystadegau allweddol

Mae asesiadau carchar iach yn dangos bod carchardai lleol a charchardai diogel iawn gyda chanlyniadau gwaeth i garcharorion

Cyfran y carchardai dynion sy'n oedolion (n=35) a gafodd asesiadau 'Da' neu 'Gweddol dda' o ran gweithgarwch pwrpasol yng Nghymru a Lloegr yn 2025-26.



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Yn siomedig, barnwyd bod 12 o'r 16 carchar hyfforddi categori B ac C y gwnaethom ymweld â nhw eleni - a ddylai fod wedi bod yn cefnogi carcharorion i symud ymlaen drwy eu dedfryd a datblygu sgiliau a fyddai'n eu helpu i ailsefydlu yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau - yn wael neu ddim yn ddigon da yn y maes hwn.

Yr unig ddau garchar a gafodd sgôr 'da' oedd Brynbuga a Haverigg, y ddau ohonynt yn dal dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol. Ym Mrynbuga, roedd carcharorion yn cael eu datgloi am y rhan fwyaf o'r dydd ac roeddent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant, ac yn Haverigg, gwelsom fod arweinwyr wedi gwneud gwaith trawiadol i fynd i'r afael â'r cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig ar gyfer y grŵp hwn.

Roedd cyfnodau hir dan glo yn creu rhwystredigaeth ac unigrwydd

Roedd amser allan o'r gell yn dal yn llawer rhy isel i'r rhan fwyaf o garcharorion, wedi'i sbarduno gan gyfundrefnau gwael a lefelau uchel o ddiweithdra.

Yr unigolion mewn carchardai derbyn oedd yn dal i gael eu heffeithio waethaf; yn ein harolwg dywedodd bron i hanner y dynion yn y carchardai hyn eu bod yn treulio llai na dwy awr y dydd allan o'u celloedd yn ystod yr wythnos. Yn Pentonville, er enghraifft, roedd 59% o garcharorion yn ddi-waith ac wedi'u cloi am hyd at 22 awr y dydd.

Roedd yn dal yn siomedig bod canlyniadau i garcharorion mewn llawer o'r carchardai hyfforddi y buom yn ymweld â nhw - sydd â'r rôl o addysgu a hyfforddi dynion fel eu bod yn barod i weithio ar ôl cael eu rhyddhau - yn cael eu tanseilio'n ddifrifol gan ddiffyg gweithgarwch ystyrlon ac ychydig o amser allan o'r gell. Yn Onley, roedd chwarter y carcharorion yn ddi-waith ac yn treulio cyn lleied ag awr y dydd heb fod dan glo, a gwelsom ormod o garcharorion dan glo ym Merwyn, Guys Marsh, Swaleside a Featherstone. I'r gwrthwyneb, roedd amser allan o'r gell yn Warren Hill yn llawer gwell nag a welwn fel arfer; roedd bron pob carcharor mewn gweithgarwch pwrpasol amser llawn, ac roeddent yn cael eu datgloi am hyd at 11 awr. Roedd yr arwyddion cynnar o'r treial 'wythnos waith hirach' yn y gweithdai yn Ranby, lle roedd carcharorion yn aros heb eu cloi amser cinio, yn galonogol.

Roedd prinder staff a threfniadau wedi'u cynllunio'n wael weithiau'n golygu bod carcharorion yn gorfod dewis pa dasgau hanfodol y gallent eu cyflawni yn ystod eu hamser cyfyngedig allan o'r gell. Yn Wakefield, roedd carcharorion yn aml yn colli amser yn yr awyr iach oherwydd bod yn rhaid iddynt giwio am eu cinio neu gawod, roedd cyfnodau cymdeithasu Guys Marsh yn cael eu cynnal yn ystod y dydd felly roedd rhai gweithwyr yn eu colli, ac yn Featherstone roedd carcharorion yn cael eu cloi am 5pm, gan adael dim digon o amser iddynt gael cawod, casglu pryddau bwyd neu giwio am feddyginiaeth.

Ychydig o garchardai oedd yn cynnig cyfnodau cyswllt min nos a, lle roeddent, roedd y rhain yn aml wedi'u cyfyngu i niferoedd bach neu'n cael eu canslo ar fyr rybudd. Yn Lerpwl, roedd gweithwyr amser llawn oddi ar yr adain dan anfantais oherwydd bod eu cyfnod domestig gyda'r nos yn cael ei ganslo'n aml, a allai eu gadael heb amser i gael cawod, defnyddio'r ciosg electronig, neu gymdeithasu ar ôl gwaith.

Roedd trefn y penwythnos fel arfer yn wael ac yn aml yn dechrau ar ddydd Gwener. Yn ein harolwg, dywedodd 41% o'r carcharorion eu bod yn treulio llai na dwy awr y tu allan i'w celloedd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Roedd gan garcharorion yn Northumberland, Fosse Way a Coldingley drefn well ar benwythnosau, gan dreulio 6.5 i wyth awr allan o'u celloedd.

Mewn llawer o garchardai, hyd yn oed pan nad oedd carcharorion dan glo, gwelsom eu bod wedi diflasu ac nad oedd ganddynt lawer i'w wneud. Dywedodd rhai carcharorion wrthym fod y diffyg gweithgareddau ar yr adain yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon i basio'r amser. Roedd nifer o garchardai wedi ceisio datblygu rhaglen ddiddorol o weithgareddau hamdden a chymdeithasol, fel clybiau gwyddbwyll, grwpiau llyfrau a sesiynau crefft, ond yn aml nid oedd y rhain yn cael eu hyrwyddo'n dda ac nid oedd llawer yn cymryd rhan.

Roedd y gampfa yn parhau i fod yn ffordd boblogaidd i garcharorion basio'r amser. Lle roedd carchardai'n gallu cynnal sesiynau campfa, roedd gan y rhan fwyaf lefelau presenoldeb uchel ac roeddent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau Addysg Gorfforol i weddu i wahanol anghenion.

Hardly working out: barriers to physical education in prisons

Roedd y papur canfyddiadau hwn yn adolygu 38 o adroddiadau arolygu, yn ogystal â chanfyddiadau arolygon carcharorion dros yr un cyfnod. Roedd data o'n harolwg yn cefnogi'r cysylltiad rhwng ymarfer corff rheolaidd ac ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, er gwaethaf manteision hysbys chwaraeon ac ymarfer corff, dywedodd rhai carcharorion nad oeddent yn gallu mynd i'r gampfa na chymryd rhan mewn chwaraeon o gwbl mewn wythnos arferol; roedd hyn ar ei uchaf mewn carchardai derbyn dynion (25%) a carchardai menywod (28%), gyda mynediad yn gyffredinol yn waeth ar benwythnosau. Er bod carcharorion yn aml yn dweud wrthym mai gwell mynediad at y gampfa a gweithgareddau corfforol eraill fyddai'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei newid fwyaf, roedd cyfleusterau carchardai, staffio a threfniadau cyfyngedig yn aml yn llesteirio eu gallu i gymryd rhan mewn ffyrdd o fyw sy'n gorfforol egniol.

Yn gyffredinol, roedd llyfrgelloedd carchardai'n cynnig gwasanaeth rhesymol ac amgylchedd croesawgar, ond roedd oriau agor cyfyngedig neu sesiynau'n cael eu canslo yn rhwystro mynediad i ormod o bobl, gan gynnwys ym Birmingham. Roedd yn arbennig o siomedig nad oedd y cyfleusterau llyfrgell newydd sbon yn Fosse Way yn addas ar gyfer y boblogaeth.

Darllen ar gyfer ailsefydlu

Roedd yr adolygiad thematig hwn yn canolbwyntio ar enghreifftiau o arferion cadarnhaol lle roedd arweinwyr ymroddedig wedi gwreiddio darllen yn niwylliant eu carchar. Roedd carchardai fel Frankland, Rye Hill, Chelmsford a Ranby yn blaenoriaethu llythrennedd drwy arweinyddiaeth weladwy, cyfarfodydd trawsadrannol rheolaidd, ac atebolrwydd clir. Roeddent yn sgrinio pob carcharor, yn tracio cynnydd, ac yn darparu ymyriadau strwythuredig, gan gynnwys addysgu'n seiliedig ar ffoneg ochr yn ochr â mentora gan gymheiriaid. Roedd llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig.

Lle'r oedd darllen yn cael ei hyrwyddo, roedd carcharorion yn magu hyder, yn gwella sgiliau, ac yn cryfhau cysylltiadau teuluol.

Mae gormod o garcharorion yn ddi-waith

Mewn llawer o garchardai, nid oedd digon o fannau gweithgarwch, gan arwain at ormod o garcharorion yn ddi-waith a heb ddigon i'w wneud. Yn Onley a Feltham B, gwelsom, yn ogystal â'r ffaith nad oedd digon o fannau gweithgarwch, fod y prosesau ar gyfer dyrannu carcharorion i'r mannau sydd ar gael yn aneffeithlon ac wedi'u cynllunio'n wael.

Roedd presenoldeb a phrydlondeb mewn gweithgareddau yn aml yn wael, a chodwyd hyn fel pryder gan Ofsted mewn 22 carchar Lloegr. Yn Bullingdon, roedd llai na hanner y mannau gweithgareddau addysg a hyfforddiant galwedigaethol arfaethedig wedi cael eu defnyddio dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd presenoldeb gwael ac absenoldeb staff.

Yn aml, nid oedd y cwricwlwm mewn carchardai derbyn yn paratoi carcharorion ar gyfer eu camau nesaf. Fodd bynnag, roedd Lincoln wedi addasu i anghenion ei boblogaeth drwy ddarparu cyrsiau byr, cymwysterau achrededig a llwybrau synhwyrol i rai sydd ag arosiadau byrrach.

Roedd ansawdd yr addysgu'n rhy amrywiol, er bod Ofsted, yn yr enghreifftiau cryfaf (fel Lincoln a Haverigg), wedi canfod bod gwersi wedi'u cynllunio'n dda, eu bod yn uchelgeisiol ac wedi'u teilwra i anghenion unigol carcharorion.

Rydym yn dal i boeni am elfennau sy'n gysylltiedig â'r newid o'r Fframwaith Addysg Carchardai i'r Gwasanaeth Addysg Carchardai, sydd â'r perygl o waethygu maes sydd eisoes yn tangyflawni. Mae toriadau sylweddol mewn termau real i'r ddarpariaeth addysg, colli staff addysgu arbenigol a tharfu ar ddysgu carcharorion oll yn bygwth tanseilio ymdrechion i wella llythrennedd, sgiliau a chyflogadwyedd. Heb adnoddau digonol, mae'r newidiadau hyn yn debygol o adael carcharorion heb y sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt i adsefydlu'n llwyddiannus ac ni fyddant yn gwneud fawr ddim i effeithio ar eu tebygolrwydd o aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau.

Just passing time: Adolygiad o ddarpariaeth gwaith a hyfforddiant mewn carchardai i oedolion

Ym mis Hydref, fe wnaethom gyhoeddi'r adolygiad thematig hwn o'r ddarpariaeth gwaith a hyfforddiant mewn 13 o garchardai hyfforddi. Gwelsom fod materion systemig yn creu heriau arferol o ran cael carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol; roedd diwrnodau gwaith yn rhy fyr ac roedd presenoldeb yn wael, ar gyfartaledd dim ond 67% yn y carchardai y gwnaethom ymweld â nhw. Disgrifiodd carcharorion a staff heriau o ran symud dynion yn ôl ac ymlaen o weithgareddau, ac nid oedd digon o fannau gwaith amser llawn ar gael i ateb y galw.

Roedd ansawdd y cyfleoedd hefyd yn anghyson; yn rhy aml, nid oedd y gweithdai'n cynnig unrhyw gymwysterau ffurfiol a phrin oedd y cyfleoedd o ran cynnydd. Roedd ymgysylltu â chyflogwyr y tu allan i'r carchar yn gyfyngedig, ac nid oedd llawer o'r gweithdai oedd yn cael eu cynnal gan gyflogwyr allanol yn rhoi cyfleoedd i garcharorion weithio ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd rhai cyrsiau hyfforddi effeithiol yn cael eu darparu mewn sectorau penodol, ond nid oedd y rhain ar gael i'r rhan fwyaf o garcharorion.

Triniaeth a chyflyrau cymysg, a rhwystredigaeth gyson


- **Roedd gorlenwi yn parhau i beri heriau sylfaenol ac roedd amodau byw wedi dirywio mewn nifer o garchardai.**
- **Nid oedd y berthynas rhwng staff a charcharorion bob amser yn ddigon da ac anaml y rhoddir blaenoriaeth i gynhwysiant a thriniaeth deg.**

Roedd y canlyniadau mewn perthynas â hyn yn parhau i fod yn wan ar draws yr ystad dynion. Dim ond tri o'r 34 carchar a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr a ddangosodd welliant eleni o'i gymharu â'n harolygiad blaenorol, a barnwyd dros draean ohonynt yn wael neu ddim yn ddigon da.

Ystadegau allweddol

Mae asesiadau carchar iach yn dangos bod carchardai lleol a charchardai hyfforddi gyda chanlyniadau gwaeth i garcharorion

Cyfran y carchardai dynion sy'n oedolion (n=35) a gafodd asesiadau 'Da' neu 'Gweddol dda' o ran parch yng Nghymru a Lloegr yn 2025-26.



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhdy

Amodau byw sy'n dirywio, seilwaith sy'n heneiddio a gorlenwi

Roedd gorlenwi yn parhau ac yn creu heriau difrifol, yn enwedig mewn carchardai derbyn. Ym Mirmingham, roedd carcharorion yn rhannu celloedd a ddyluniwyd ar gyfer un person ac roeddent yn defnyddio cynfasau gwely a llenni eraill i sgrinio'r toiled i greu rhywfaint o breifatrwydd. Gwaethygydd yr amodau gwael mewn rhai carchardai gan gyfnodau hir dan glo, gyda mynediad cyfyngedig at weithgarwch neu awyr iach. Roedd yr amodau'n tueddu i fod yn well mewn safleoedd mwy modern, yn enwedig lle roedd gan garcharorion eu cell eu hunain a oedd yn cynnwys cawod.

Roedd amodau byw yn dal i ddirywio, yn aml o ganlyniad i adeiladau sy'n heneiddio, seilwaith annibynadwy a'r amser roedd yn ei gymryd i wneud gwaith atgyweirio. Roedd methiannau hirsefydlog yn dal heb eu datrys. Roedd carchardai fel Lincoln yn dal i ddibynnu ar foeleri dros dro flynyddoedd ar ôl i'r systemau parhaol fethu, ac roedd gollyngiadau dŵr yn Guys Marsh yn achosi toriadau pŵer mynych. Hyd yn oed pan oedd gwaith adnewyddu wedi dechrau, roedd cynnydd weithiau'n cael ei atal gan fethiannau mawr gan gcontractwyr, gan arwain at oedi costus ac aflonyddwch hir, er enghraifft ym Mirmingham.



O'r chwith i'r dde: goleuadau dros dro mewn cawodydd yn Guys Marsh a chawod wedi'i ddifrodi ym Mirmingham

Roedd diffyg gwaith cynnal a chadw effeithiol gan y contractwr cyfleusterau hefyd yn gohirio gwaith adnewyddu yn Lerpwl, ond yma, ac yn Lincoln, roedd arweinwyr wedi llwyddo i gynnal glanweithdra er bod y seilwaith yn heneiddio. Fodd bynnag, mewn llawer o garchardai eraill, roedd celloedd a mannau cymunedol yn aml yn fudr. Ym Mirmingham, roedd safonau glendid wedi llithro ers ein harolygiad diwethaf ac ym Mhentonville, roedd angen glanhau llawer o risiau a mannau cymunedol yn drylwyr. Roedd glanweithdra gwael yn aml yn arwain at fermin fel chwilod duon yng Nghaerlŷr a llygod mawr yn Swaleside.

Roedd bwyd yn dal yn faes a oedd yn peri cryn anfodlonrwydd gyda dim ond 36% o garcharorion yn dweud ei fod yn dda iawn neu'n eithaf da. Roedd hen offer cegin wedi torri mewn rhai safleoedd yn ei gwneud yn anodd darparu prydau bwyd o ansawdd digonol a phrin oedd yr offer hunan-arlwygo mewn unrhyw garchardai.



O'r chwith i'r dde: sbwriel y tu allan yng Nghaerlŷr ac ar y tir yn Swaleside

Yn fwy cadarnhaol, croesawyd cyflwyno technoleg yn y celloedd (a elwir yn 'Launchpad') gan garcharorion mewn safleoedd fel Doncaster, Altcourse, Bullingdon a Berwyn. Mae hwn yn adnodd rhagorol sy'n rhoi mwy o reolaeth i garcharorion dros eu bywydau bob dydd, er enghraifft caniatáu iddynt weld apwyntiadau a chael gafael ar wybodaeth am wasanaethau yn y carchar.

Nid yw'r berthynas rhwng staff a charcharorion bob amser yn ddigon da

Eleni, dywedodd y rhan fwyaf o garcharorion wrthym fod staff yn eu trin â pharch (70%) a bod staff yn eu carchar y gallent droi atynt pe bai ganddynt broblem (69%). Fodd bynnag, roedd carcharorion yn aml yn disgrifio rhwystredigaeth gyda staff roeddent yn eu disgrifio fel rhai diystyriol neu wrthwynebus. Yn aml, gwelsom swyddogion â diffyg hyder i herio ymddygiad gwael lefel isel oedd yn aros yn y swyddfa yn hytrach na siarad â charcharorion ar yr adain. Mewn carchardai sy'n darparu mwy o amser allan o'r gell, cawsom sylwadau mwy cadarnhaol am berthnasoedd ystyrlon â staff a oedd yn ceisio bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd cyflawni gwaith allweddol yn y rhan fwyaf o safleoedd yn anghyson ac roedd ansawdd y cyswllt rhwng staff a charcharorion yn amrywio.

Mewn rhai carchardai, roedd gweithwyr cymheiriaid carcharorion yn cael eu defnyddio'n dda i helpu i gefnogi a chynrychioli carcharorion eraill. Yn gyffredinol, roedd ymgynghori'n fwyaf effeithiol pan oedd cyfarfodydd cyngor yn cael eu cadeirio gan y llywodraethwr neu uwch arweinydd arall, gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr carcharorion o bob adain a ffyrdd gweladwy o gyfleu canlyniadau i'w cymheiriaid.

Mewn llawer o safleoedd, yn enwedig y rhai â systemau papur, roedd carcharorion yn teimlo'n rhwystredig ynghylch faint o amser roedd yn ei gymryd i ddatrys ceisiadau, ac yn aml roedd diffyg hyder yn y system gwyno. Dim ond 30% o'r dynion a oedd wedi cwyno eleni a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin yn deg a dim ond 26% ddywedodd fod y broblem wedi cael sylw o fewn saith diwrnod.

Dadbacio eiddo carcharorion: Ffynhonnell gudd o wrthdaro a chwyno

Canfu'r papur canfyddiadau allweddol hwn nad oedd digon o garcharorion yn dweud eu bod wedi cael eu heiddo o fewn y dyddiau cyntaf ar ôl cyrraedd y carchar (63%), gan olygu fod nifer ddim yn gallu cael gafael ar eitemau pwysig fel dillad, esgidiau, llyfrau a ffotograffau. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at effaith yr oedi hwn: yn cynyddu ymdeimlad carcharorion o fod yn agored i niwed yn aml ar adeg o straen, gan eu harwain i gredu eu bod yn cael eu trin yn annheg, a'i gwneud yn llawer anoddach meithrin perthynas gadarnhaol, ymddiriedus â staff.

Carchar Magilligan

Ym mis Medi 2025, fe wnaethom arolygu Carchar Magilligan gydag Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon. Roedd hwn yn arolygiad trawiadol lle roedd arweinyddiaeth y llywodraethwr wedi arwain at amrywiaeth o welliannau. Roedd perthynas ragorol rhwng staff a charcharorion yn sail i lawer o'r gwaith da oedd yn cael ei wneud ar draws y carchar ac roedd lefelau trais a defnyddio grym yn is nag mewn carchardai tebyg yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr amser y gallai carcharorion ei dreulio allan o'u celloedd ymhlith y gorau yr oedd yr Arolygwyr wedi'i weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Triniaeth deg a chynhwysiant yn aml yn cael eu hesgeuluso gan arweinwyr

Mewn llawer o garchardai, nid oedd arweinwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth i driniaeth deg a chynhwysiant. Roedd goruchwyliaeth yn aml yn wan, ymgynghori yn symbolaidd yn unig, ac anaml iawn y defnyddiwyd data'n effeithiol i wella canlyniadau. Dangosodd nifer fach o garchardai beth y gellid ei gyflawni. Yn Isis, roedd arweinwyr yn hyrwyddo cynhwysiant drwy ddigwyddiadau addysgol a dathlu, gweithlu amrywiol, mentora a hyfforddiant. Fodd bynnag, eithriad oedd hyn yn hytrach na'r norm. Hyd yn oed mewn carchardai lle roedd data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio i nodi canlyniadau anghymesur, yn aml nid oedd llawer o gamau'n cael eu cymryd i'w gwella. Roedd diffyg hyder yn y system adrodd am wahaniaethu mewn gormod o garchardai.

Ar draws yr ystad, roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig a dynion Mwslimaidd yn adrodd yn gyson am brofiadau gwaeth. Roedd yr Hwb Treftadaeth yn Isis a Thaith yr Arwr Du yn Wormwood Scrubs yn fentrau cadarnhaol, ond nid oedd y rhain yn gyffredin.

Roedd carcharorion oedd o dan 25 oed yn fwy negyddol yn ein harolygon, yn enwedig o ran dyddiau cynnar, perthnasoedd â staff a faint o amser allan o'r gell. Yn aml, nid oedd gan garcharorion hŷn gefnogaeth wedi'i theilwra, ond gwelsom fentrau cadarnhaol mewn rhai safleoedd fel Haverigg, a oedd yn cynnal boreau coffi, bowls a grwpiau celf rheolaidd.

Roedd mynediad i unigolion â symudedd cyfyngedig yn dal yn wael mewn rhai carchardai; yn Leeds, er enghraifft, nid oedd defnyddwyr cadeiriau olwyn yn gallu cyrraedd ystafelloedd dosbarth na gweithdai ac roedd cadeiriau olwyn yn rhy lydan i ddrysau'r celloedd. Yn fwy cadarnhaol, roedd Hewell wedi sefydlu uned yn benodol ar gyfer dynion anabl.

Nid oedd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd proffesiynol bob amser yn cael eu defnyddio pan oedd angen. Mewn rhai safleoedd, roedd staff yn dibynnu'n amhriodol ar garcharorion eraill i gyfieithu sesiynau gwaith allweddol ac nid oedd hyd yn oed safleoedd gyda chiosgau electronig ar yr adeiniau yn darparu digon o wybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Gwelsom well darpariaeth yn Doncaster, lle roedd carcharorion sy'n wladolion tramor yn cael £10 o gredyd ffôn ychwanegol i helpu i liniaru cost galwadau rhyngwladol. Roedd rhai carchardai'n elwa o rôl newydd y Swyddog Gwladolion Tramor.

Roedd dau arbenigwr mewn troseddwyd sy'n wladolion tramor yn gwneud gwahaniaeth i brofiadau carcharorion. Roeddent yn dechrau mynd i'r afael â rhai pryderon lles ehangach ochr yn ochr â'u gwaith o helpu'r Swyddfa Gartref i alltudio. Er enghraifft, roeddent yn ystyried ble roedd gwladolion tramor wedi'u lleoli yn y carchar er mwyn iddynt allu byw ochr yn ochr â chymheiriaid sy'n rhannu eu hiaith neu eu diwylliant.

Wormwood Scrubs

Mynediad gwael at wasanaethau iechyd meddwl

- **Roedd cleifion yn wynebu amseroedd aros rhy hir am asesiadau iechyd meddwl a therapi.**
- **Roedd yr amseroedd aros ar gyfer trosglwyddiadau i ysbytai diogel yn dal yn rhy hir o lawer.**
- **Roedd mwy o garcharorion â salwch meddwl yn cael eu remandio i'r carchar ac nid oedd digon o hyfforddiant iechyd meddwl i staff carchardai.**

Cyfyngwyd ar wasanaethau iechyd meddwl dro ar ôl tro gan brinder staff, gan arwain at fynediad gwael ac arosiadau rhy hir am asesiadau a therapi. Nid oedd digon o ddarpariaeth seicolegol a/neu restrau aros hir mewn nifer o garchardai, gan gynnwys Ranby, Elmley a Fosse Way. Roedd hyn yn cynyddu risg glinigol carcharorion, yn ymestyn eu trallod, ac yn cyfrannu at ddirywiad posibl yn eu hiechyd meddwl. Roedd ein harolygon yn dangos bod 61% o garcharorion yn dweud bod ganddynt broblem iechyd meddwl a dim ond 14% o garcharorion oedd yn teimlo bod eu hiechyd meddwl wedi gwella yn y carchar.

Roedd canlyniadau cleifion oedd angen gofal a thriniaeth arbenigol mewn ysbytai diogel yn dal i fod yn wael iawn, gyda chleifion yn wynebu amseroedd aros hir i gael gwelyau wrth i'w cyflwr fynd heb ei drin ac wrth i'w hiechyd ddirywio. Yn aml, gwelsom gleifion cythryblus yn cael eu hynysu mewn unedau gwahanu. Yn Swaleside, arhosodd un claf am 711 diwrnod, methiant annerbyniol. Rydym yn dal yn bryderus iawn bod y cleifion hyn yn dal i brofi niwed y gellir ei osgoi'n llwyr.

Eleni, gwelsom hefyd gynydd yn nifer y carcharorion â salwch meddwl a gafodd eu remandio i'r carchar oherwydd absenoldeb neu fethiant dargyfeiriad addas. Nid oedd llysoedd yn Llundain a Swydd Gaerlŷr yn gwneud digon i sicrhau bod pobl â salwch meddwl difrifol yn cael eu dargyfeirio'n briodol o'r ddalfa i gael triniaeth. Roedd carchardai derbyn fel Howell, Birmingham a Leeds wedi cael mwy o ddynion cythryblus iawn oherwydd nad oedd dewisiadau cymunedol eraill ar gael.

Nid oedd y rhan fwyaf o garchardai wedi buddsoddi mewn hyfforddiant iechyd meddwl i staff carchardai a oedd yn gorfod cefnogi dynion mewn trallod bob dydd. Felly, roedd yn braf gweld y tîm seicoleg yn Isis yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion i wella eu dealltwriaeth, eu hyder wrth feithrin perthnasoedd, a'u gallu i adnabod unigolion a allai fod angen cymorth.

Pryderon ynghylch arweinyddiaeth, partneriaeth a goruchwyliaeth gofal iechyd

- **Nid oedd arweinwyr bob amser yn deall nac yn rheoli risgiau iechyd yn briodol.**
- **Yn aml, nid oedd digon o swyddogion i hebrwng cleifion i apwyntiadau iechyd nac i oruchwyllo'r gwaith o roi meddyginiaeth.**

Roedd pwysau o'r cynlluniau rhyddhau cynnar, yr angen i symud carcharorion o amgylch yr ystad i ryddhau lle ac anawsterau wrth geisio recriwtio yn effeithio ar ddarparu gofal iechyd. Roedd GIG Lloegr wedi comisiynu lefel addas o ofal ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd, ond nid oedd mynediad at ofal deintyddol bob amser yn ddigon da ac nid oedd gan nifer fach o garchardai ddealltwriaeth ddigonol o'u hanghenion iechyd presennol. Roedd arweinyddiaeth anghyson a goruchwyliaeth annigonol yn aml wrth wraidd gwasanaethau gwael: roedd rhai carchardai'n cael trafferth cadw uwch reolwyr iechyd oedd yn golygu bod staff iechyd yn profi newid yn aml, yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi, ac weithiau'n teimlo'n anniogel.

Roedd rhai arweinwyr yn cael trafferth deall neu reoli risgiau iechyd yn ddigonol. Codwyd pryderon gennym am arweinyddiaeth a rheoli risg 22 o weithiau eleni. Yn Thameside, fe wnaeth diffyg goruchwyliaeth arwain at ganlyniadau gwael iawn i gleifion. Fodd bynnag, pan wnaethom ddychwelyd ym mis Ionawr 2026, gwelsom welliant sylweddol, a oedd yn dangos blaenoriaethu effeithiol a ffocws ar arweinyddiaeth. Tynnodd Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Swydd Nottingham yn ôl o'r farchnad iechyd troseddwy, gan arwain at drosglwyddo saith gwasanaeth gofal iechyd carchardai i ddarparwyr newydd.

Gwelsom rai cysylltiadau da iawn rhwng timau gofal iechyd, arweinwyr carchardai a chomisiynwyr iechyd, ond roedd gormod o fyrddau partneriaeth heb fynd i'r afael â risgiau hirsefydlog yr oedd angen gweithredu arnynt. Yn Warren Hill, nid oedd digon o setiau radio carchar i wneud yn siŵr bod nyrsys yn gallu cael eu galw i alwadau brys; codwyd hyn fel risg ar ôl un digwyddiad, ond bedwar mis yn ddiweddarach nid oedd wedi cael ei ddatrys. Roedd diffyg gofod clinigol parhaus, ynghyd â gwaith cynnal a chadw gwael, yn creu arferion anniogel ac yn gwastraffu amser mewn llawer o garchardai; yn Bullingdon roedd diffyg lle wedi bod yn broblem ers naw mlynedd.

Roedd nifer o garchardai'n methu darparu digon o swyddogion i hebrwng cleifion i'w hapwyntiadau iechyd neu i oruchwyllo ciwiau rhoi meddyginiaethau. Roedd y diffyg ffocws ar ddargyfeirio meddyginiaethau yn peri pryder, yn enwedig gan fod cyfran uchel (39%) o garcharorion wedi dweud wrthym ei bod yn hawdd cael gafael ar feddyginiaeth oedd ddim wedi cael ei rhoi iddynt ar bresgripsiwn. Fodd bynnag, roedd Thameside a Coldingley wedi blaenoriaethu staffio yn y meysydd hyn.

Nid oedd cleifion bob amser yn cael y feddyginiaeth yr oedd ei hangen arnynt ar yr adeg gywir; dywedodd 63% o garcharorion wrthym eu bod wedi gorfod aros i gael eu meddyginiaeth wrth gyrraedd, a dim ond 40% ddywedodd ei bod yn hawdd gweld fferylllydd.

Roedd gwelliannau da neu resymol mewn llawer o'r carchardai y dychwelwyd iddynt ar gyfer adolygiadau annibynnol o gynnydd. Fodd bynnag, canfuwyd bod gan Rochester, Onley a Deerbolt i gyd risgiau parhaus.

Roedd pwysau sylweddol yn effeithio ar gynnydd carcharorion ac ar baratodau ar gyfer rhyddhau


- Roedd pwysau o ran poblogaeth yn llesteirio cynnydd mewn dedfrydau a phrosesau rhyddhau wedi'u cynllunio'n dda.
- Roedd llawer o unedau rheoli troseddwy'r yn methu cyflawni gwaith cyson i leihau aildroseddu nac i amddiffyn y cyhoedd.
- Roedd carchardai lleol yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion niferoedd uchel ar remand neu wedi'u galw yn ôl.
- Fe wnaeth ein hadolygiad thematig o waith teulu ganfod dealltwriaeth anghyson o bwysigrwydd cyswllt teuluol.

O ran paratoi ar gyfer rhyddhau, aseswyd bod 54% o'r carchardai a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr (19 o 35) yn dda neu'n eithaf da.

Ystadegau allweddol

Mae asesiadau carchar iach yn dangos bod carchardai lleol a charchardai hyfforddi gyda chanlyniadau gwaeth i garcharorion

Cyfran y carchardai dynion sy'n oedolion (n=35) a gafodd asesiadau 'Da' neu 'Gweddol dda' o ran paratoi at ryddhau yng Nghymru a Lloegr yn 2025-26.



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhdy

Dim digon o gefnogaeth o ran cynnydd a rhyddhau

Roedd gweithredu cynlluniau rhyddhau'n gynnar a newidiadau i'r polisi galw'n ôl wedi lleihau'r amser y gallai unedau rheoli troseddwy, sy'n brin o staff yn gyffredinol, ei dreulio'n cefnogi carcharorion ac yn rheoli risg.

Er ein bod wedi gweld rhai unedau rheoli troseddwy yn perfformio'n dda - er enghraifft, yn Doncaster, oedd â thîm cryf ac effeithiol - y thema amlycaf oedd diffyg rheolwyr troseddwy yn y carchar a llwythi achosion gormodol. Roedd rheolwyr troseddwy yn y carchar mewn lifrai yn aml yn cael eu dargyfeirio i ddyletswyddau gweithredol oherwydd prinder cyffredinol o staff carchardai. Yn Fosse Way, roedd llawer o reolwyr troseddwy yn y carchar yn rheoli dros 100 o garcharorion.

Dywedodd yr holl reolwyr troseddwy yn y carchar y buom yn siarad â nhw fod eu gwaith yn cael ei yrru'n bennaf gan dasgau â therfyn amser, fel adolygiadau ail-gategoreiddio a datblygu cyrffiw cyfyngu i'r cartref, oedd ddim yn gadael llawer o amser ar gyfer cyswllt parhaus mwy ystyrlon â charcharorion. **Fosse Way**

Roedd y diffyg cyswllt rhwng rheolwyr troseddwy yn y carchar a charcharorion yn golygu mai ychydig iawn o waith un-i-un ystyrlon yn canolbwyntio ar leihau risg oedd i'w gael. Roedd yr eithriadau'n amlwg, fel ym Mrynbuga, lle dywedodd 71% o garcharorion fod aelodau o staff yn eu cefnogi i gyflawni'r amcanion yn eu cynllun dedfrydu a bod carcharorion yn canmol eu rheolwyr troseddwy yn y carchar.

Ychydig o garchardai oedd yn rhoi blaenoriaeth i sesiynau gwaith allweddol. Lle cynhaliwyd sesiynau, roeddent fel arfer yn rhy anaml i feithrin perthynas gynhyrchiol ac anaml yr oeddent yn gysylltiedig â chynlluniau dedfrydu.

Yn ein harolygon, dim ond 54% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gynllun dedfrydu, oedd yn golygu nad oeddent yn gallu dangos cynnydd yn erbyn eu nodau. Hyd yn oed pan oedd cynlluniau'n bodoli, nid oedd digon o gyfleoedd ar gael i gwblhau rhaglenni achrededig a gynlluniwyd i leihau risg. Mae'r flwyddyn adrodd hon yn cyd-daro ag atal yr holl raglenni achrededig presennol a chyflwyno un rhaglen newydd yn raddol, sef 'Building Choices'; dim ond niferoedd bach oedd wedi gallu ymgymryd â'r cwrs erbyn diwedd y cyfnod adrodd.

Roedd rhai carchardai wedi cyflwyno mesurau lliniaru tymor byr. Yn Ranby, roedd rheolwyr troseddwy yn y carchar wedi creu cynlluniau dedfrydu interim gyda thargedau sylfaenol, ac roedd y timau prawf ac addysg wedi datblygu cyrsiau byr ar bynciau fel ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol, perthnasoedd, rheoli gwrthdaro a chyllidebu.

Roedd gorlenwi'n golygu bod carcharorion fel arfer yn cael eu trosglwyddo i le bynnag roedd gofod yn bodoli, yn hytrach nag i garchardai oedd yn addas i'w hanghenion neu'n agos at eu teulu.

Hyd yn oed pan oedd carcharorion wedi cyrraedd eu dosbarthiad categori C, ychydig iawn oedd yn gallu symud i garchar diogelwch isel oherwydd pwysau poblogaeth ac roedd bron i 10% o garcharorion wedi'u dynodi'n categori C adeg yr arolygiad. **Lodham Grange**

Roedd y gefnogaeth i garcharorion a oedd yn bwrw dedfrydau amhenodol yn anghyson ac yn aml yn annigonol. Yn Lowdham Grange, i'r 43% o ddynion a oedd yn bwrw dedfryd oes neu ddedfryd amhenodol, nid oedd llawer o gefnogaeth na chyfle penodol i ddangos cynnydd. Yn wir, roedd llawer o garcharorion yn dibynnu ar gymheiriaid i gael gwybodaeth glir am eu dedfryd.

Roedd carcharorion IPP (carchar er mwyn diogelu'r cyhoedd) yn dal i ddweud eu bod yn teimlo'n rhwystredig ac yn ofidus wrth gael eu cadw'n gaeth y tu hwnt i'w tariff sylfaenol, ond roedd tystiolaeth o wella'r gefnogaeth mewn sawl carchar. Yn Haverigg, a oedd â 47 o garcharorion IPP:

Roedd cyflwyno 'paneli cynnydd' lleol ychwanegol yn ddiweddar i asesu anghenion carcharorion IPP unigol, rhannu arbenigedd a datrys achosion cymhleth yn gadarnhaol... Yn ddiweddar roedd y carchar wedi trefnu digwyddiad gwybodaeth i rai carcharorion IPP gwrdd â chynrychiolwyr o'r bwrdd parôl... a dysgu mwy am y broses parôl a beth i'w ddisgwyl yn ystod gwrandawriad. **Haverigg**

Goruchwyliaeth anghyson o risgiau diogelu'r cyhoedd

Dylid nodi a lleihau risg carcharorion o niwed i eraill cyn belled ag y bo modd er mwyn cefnogi diogelwch darpar ddibynyddion, dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd rhai carchardai, gan gynnwys Berwyn, Fosse Way a Haverigg, yn gwneud gwaith effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd, fel arfer oherwydd eu bod wedi darparu adnoddau da ar ei gyfer gyda staff ymroddedig a phrofiadol. Fodd bynnag, roedd nifer y carcharorion risg uchel a oedd yn cyrraedd, yn cael eu rhyddhau, yn cael eu galw'n ôl ac yn aros am gyfnodau byr yn heriau mawr i garchardai derbyn. Roedd carcharorion a oedd wedi cael eu galw'n ôl yn aml yn aros am lai na 14 diwrnod, gan adael ychydig iawn o amser i ddatblygu cynllun rheoli risg effeithiol.

Yn yr un modd, er bod yn rhaid sgrinio pob carcharor am risg wrth gyrraedd, roedd niferoedd uchel a diffyg staff gweinyddol wedi arwain at ôl-groniadau o ran cymeradwyo cyswllt a rhoi'r cyfyngiadau angenrheidiol ar waith. Roedd hyn yn golygu nad oedd mesurau diogelu allweddol ar waith mewn rhai carchardai i ddiogelu dioddefwyr na'r cyhoedd.

Cynnydd yn nifer y carcharorion ar remand a diffyg sylw i'w hanghenion

Mae cyfran y carcharorion ar remand yng Nghymru a Lloegr wedi bron â dyblu yn y chwe blynedd diwethaf - o 11% yn 2019 i 19% yn 2026. Fe wnaeth ein papur canfyddiadau 'Mae popeth ar ôl dedfrydu' ganfod nad oedd HMPPS wedi addasu'n ddigon cyflym i fodloni eu hanghenion. Roedd carcharorion ar remand yn fwy tebygol o gael eu cadw mewn celloedd dwbl, o golli eu hawliau ymweld ac o gael mynediad cyfyngedig at weithgarwch pwrpasol. Roeddent yn aml yn cael eu heithrio o wasanaethau cyn-rhyddhau, ac roedd cymorth tai yn dal yn anghyson. Nid oedd y carcharorion hyn yn cael rheolwr troseddwr yn y carchar, ac roedd y rhan fwyaf yn cael eu cadw mewn carchardai derbyn gorlawn, lle roedd eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu'n haws.

Problemau parhaus gyda digartrefedd ar ôl rhyddhau

Roedd digartrefedd ar ôl rhyddhau yn dal yn ystyfnig o uchel. Dywedodd llawer o garchardai nad oedd gan 20-30% o garcharorion gyfeiriad sefydlog, gyda llawer mwy yn dibynnu ar lety tymor byr. Nid oedd carchardai'n cadw data tai ar gyfer y niferoedd cynyddol oedd yn cael eu rhyddhau'n uniongyrchol o'r llys, gan greu bwlch gwybodaeth sylweddol i sefydliadau fel Wormwood Scrubs, lle roedd y grŵp hwn yn cyfrif am tua thraean o'r carcharorion a ryddhawyd. Ni chwblhawyd unrhyw atgyfeiriadau dyletswydd i atgyfeirio ar gyfer carcharorion digartref ar remand.

Ar sail data carchardai, nid oedd gan 70% o'r dynion a gafodd eu rhyddhau yn ystod y 12 mis blaenorol lety cynaliadwy ac roedd 20% o'r rhain yn cael eu rhyddhau'n gwbl ddigartref. **Birmingham**

Roedd dedfrydau byr a galw yn ôl - oedd yn aml yn para dim ond 14 diwrnod - yn gwneud cynllunio tai yn anodd. Roedd prinder cronig o dai cymdeithasol a gormod o geisiadau am leoedd cymeradwy wedi creu tagfeydd. Roedd lefelau uchel o ddigartrefedd cyffredinol mewn rhai rhanbarthau ac roedd carcharorion yn dychwelyd i ardaloedd ymhell o'r carchar, oedd yn ei gwneud yn anodd cydlynu gwasanaethau. Nid oedd llawer o ddynion yn cael eu cyfeirio at awdurdodau lleol na gweithwyr tai mewn da bryd, ac roedd prinder staff ac adnoddau ymysg darparwyr tai yn arwain at lwyth achosion uchel a cholli cyfleoedd i gael cymorth.

Roedd rhai enghreifftiau canmoladwy o arfer cadarnhaol. Roedd penodi arbenigwyr tai strategol ar draws y wlad yn gwella cynllunio a chysylltu ag awdurdodau lleol. Er enghraifft, yn Northumberland, fe wnaethom nodi bod y rôl hon wedi gwneud defnydd da o ddata i ddadansoddi canlyniadau ar gyfer carcharorion a bod tystiolaeth o waith da a chreadigol i feithrin cysylltiadau yn y gymuned.

Roedd byrddau rhyddhau aml-asiantaethol a phaneli cyn-rhyddhau hefyd yn cydlynu cymorth yn well. Mewn rhai carchardai, roedd ehangu cymorth tai i bobl ar remand yn helpu carcharorion i gynnal tenantiaethau a lleihau eu risg o ddigartrefedd.

Pwysigrwydd allweddol cyswllt â theulu

Fe wnaeth ein hadolygiad thematig, 'Diogelwch, llesiant a gobaith: Potensial heb ei wireddu cyswllt teuluol mewn carchardai' ganfod bod darpariaeth deuluol gref yn cyfrannu at ddiwylliant mwy cadarnhaol a llawn cymhelliant. Rydym wedi clywed nifer o adroddiadau am sut mae teuluoedd yn cefnogi llesiant meddyliol a chorfforol, yn rhoi ymdeimlad o bwrpas i garcharorion ac yn annog awydd i newid. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth dda o rôl teuluoedd mewn hyrwyddo diogelwch, ac anaml yr oeddent yn ymwneud â chefnogi carcharorion oedd mewn perygl o hunan-niweidio neu drais.

Er i ni ddod o hyd i lawer o enghreifftiau o arfer da, roedd y ddarpariaeth yn aml yn fregus ac yn anghyson. Roedd gwaith teulu yn aml yn cael ei weld fel cyfrifoldeb darparwr teulu dan gontract, yn hytrach nag ymdrech ar y cyd â'r carchar, ac roedd gwasanaethau'n dibynnu gormod ar ewyllys da a gwirfoddolwyr. Nid oedd cynlluniau oedd yn ceisio cefnogi teuluoedd yn cyrraedd digon o garcharorion ac roedd gwendidau mewn darpariaeth sylfaenol fel amseroedd galwadau fideo cymdeithasol annigonol, ffonau wedi torri a phroblemau cyson gydag ymweliadau cymdeithasol.

A photograph of a prison building. The building has a red brick facade with several white-framed windows. A metal mesh fence is in the foreground, partially obscuring the building. The sky is blue. The text 'Dau' is overlaid on the image in a large, dark red font.

Dau

Menywod yn y carchar


- **Fe wnaethom barhau i ganfod lefelau uchel o hunan-niweidio ac anghenion iechyd meddwl mewn carchardai i fenywod.**
- **Roedd perthynas gadarnhaol gyda staff a gwaith teulu ymroddedig yn gwneud gwahaniaeth.**
- **Roedd amser allan o'r gell yn gymysg ac nid oedd llawer o fenywod yn cael yr help yr oedd ei angen arnynt ar ôl cael eu rhyddhau, yn enwedig rhai oedd wedi cael eu galw'n ôl.**

Mae'r adran hon yn defnyddio canfyddiadau arolygiadau o bum carchar i fenywod - Foston Hall, Send, Eastwood Park, Bronzefield a Low Newton - ac un adolygiad annibynnol o'r cynnydd yn Foston Hall.

Ystadegau allweddol

Dadansoddiad o asesiad carchar iach

Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF o garchardai i fenywod sy'n oedolion (n=5) yng Nghymru a Lloegr, 2025/26



Ffynhonnell: Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhdy

Lefelau uchel o hunan-niweidio ac angen iechyd meddwl

Roedd menywod â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn dal i gael eu hanfon i'r carchar, ond roedd y data'n wael felly roedd yn anodd dangos gwir faint y broblem hon. Yn syml iawn, nid carchar oedd y lle iawn i'r menywod hyn; nid gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yw swyddogion, ac roedd y carcharorion hyn yn aml yn profi gwahanu tymor hir oherwydd eu hymddygiad.

Roedd cyfraddau hunan-niweidio wyth gwaith yn uwch mewn carchardai menywod na charchardai dynion ac roedd dulliau anghyson o reoli achosion asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm, yn ogystal â mynediad cyfyngedig at Wrandawyr, yn parhau. Fodd bynnag, roedd

HMPPS wedi cymryd y pryderon a godwyd yn ein hadolygiad thematig 'Amser i Ofalu' (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025) o ddifrif ac roedd arwyddion calonogol o gynnydd, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i ailgynllunio ar gyfer swyddogion newydd, digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i staff am effaith profiadau bywyd ar ymddygiad, ac arwyddion o ddiwylliant oedd yn newid, gyda symudiad oddi wrth ddefnyddio mesurau cosbi yn erbyn menywod mewn argyfwng. Roedd y defnydd o ddillad gwrth-rwygo, er enghraifft, wedi gostwng yn sylweddol o 491 o achosion yn 2024 i 55 yn 2025.

Nid oedd y gefnogaeth drwy gyflwyno sesiynau gwaith allweddol dal yn ddigon da, ond dangosodd canlyniadau ein harolwg fod y rhan fwyaf o fenywod (80%) yn teimlo bod ganddynt rywun i droi ato pe bai ganddynt broblem.

Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o ryngweithio parchus, gofalgar a thosturiol rhwng staff a charcharorion. Dywedodd un fenyw:

Dwi wedi bod yn filain ac yna'r diwrnod canlynol maen nhw wedi bod yn anhygoel, dydyn nhw ddim yn rhoi'r ffidil yn y to.

Low Newton

Mae angen gwneud mwy o waith i leihau trais a'r defnydd o gyffuriau

Roedd cyfraddau trais wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o garchardai, er mai ychydig o ddigwyddiadau oedd yn ddifrifol. Yn yr un modd â hunan-niweidio, roedd nifer fach o fenywod yn gyfrifol am gyfran fawr o'r trais. Nid oedd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIPs, gweler Geirfa) yn aml yn ddefnyddiol iawn gan nad oeddent yn cynnwys camau gweithredu penodol, ac nid oedd staff bob amser yn eu defnyddio'n rhagweithiol. Fodd bynnag, roedd cymorth gan gymheiriaid a chyfryngu cael eu defnyddio'n dda yn gyffredinol i gefnogi menywod ac i helpu i ddatrys gwrthdaro.

Roedd cyfradd y canlyniadau positif o brofion cyffuriau gorfodol ar hap yn isel o'i gymharu â llawer o garchardai dynion, ond dywedodd 38% o fenywod ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon a dywedodd 44% ei bod yn hawdd cael meddyginiaeth oedd ddim wedi cael ei roi iddynt ar bresgripsiwn. Ar ôl blynyddoedd lawer o beidio â chael defnyddio sganwyr corff ar fenywod mewn carchardai, mae gan HMPPS ganiatâd i'w gosod erbyn hyn ond nid oedd wedi gweithredu chwiliadau cadarn o staff ac ymwelwyr wrth iddynt fynd i mewn i'r carchardai a arolygwyd gennym. Roedd gwelliannau eraill i drefniadau diogelwch yn cynnwys gwell rheolaeth o'r rhai yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol, a rhoi mwy o ystyriaeth i wedduster wrth hebrwng menywod beichiog i'r ysbyty.

Mae perthnasoedd cadarnhaol yn gwneud gwahaniaeth mewn rhai carchardai


Yn Low Newton, nodwyd gennym fod perthynas arbennig o gryf rhwng staff a charcharorion a rhagor o amser allan o'r gell wedi helpu i oresgyn y problemau yr oedd rhai menywod yn eu hwynebu wrth wneud ceisiadau a datrys ceisiadau sylfaenol. Yn ein hadolygiad o gynnydd yn Foston Hall, roedd llawer o fenywod yn canmol y parch a ddangoswyd gan staff ac yn dweud bod swyddogion yn eu helpu i wneud pethau syml o ddydd i ddydd, oedd yn arwydd o ddiwylliant sy'n gwella. Dim ond un o'r carchardai a arolygwyd eleni oedd â chiosgau electronig ar yr adeiniau i helpu menywod i wneud ceisiadau ac, yn y lleill, nid oedd y systemau papur ar gyfer gwneud ceisiadau bob amser yn effeithiol.

Roedd rheolau oedd yn atal menywod rhag golchi eu dillad isaf mewn peiriannau cymunedol wedi cael eu diddymu ac roedd cynnyrch hylendid bellach ar gael yn rhwydd yn Eastwood Park, Low Newton, a Send. Fodd bynnag, yn nhri o'r pum adroddiad a gyhoeddwyd, nodwyd gennym nad oedd menywod yn dal i allu cael eu gwallt wedi'i dorri.

Roedd dadansoddi data i ganfod anghymesuredd mewn canlyniadau yn gyfyngedig a hyd yn oed pan oedd tystiolaeth o broblem (fel cwynion neu ddefnyddio grym yn Bronzefield), anaml y gweithredodd arweinwyr. Roedd y gefnogaeth i fenywod niwrowahanol yn gwella, gyda mentrau fel sesiynau campfa 'Bounce Back' Low Newton yn rhoi hwb i hyder a hunan-barch. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth ar gyfer pobl oedd ddim yn siarad Saesneg yn wael, gydag enghreifftiau o wasanaethau cyfieithu ddim yn cael eu defnyddio pan oedd eu hangen ac ychydig iawn o ddeunyddiau wedi'u cyfieithu oedd ar gael.

Dangosodd ein harolwg carcharorion ar gyfer y thema 'Amser i ofalu' fod menywod yn credu mai cadw mewn cysylltiad â'u teulu oedd y peth pwysicaf o ran gallu ymdopi yn y carchar. Fodd bynnag, nid oedd rhyddhau ar drwydded dros dro ar gael yn aml i fenywod ac roedd oedi cyn ychwanegu rhifau ffôn, anawsterau wrth drefnu ymweliadau, a mynediad cyfyngedig at alwadau fideo yn llesteirio cyswllt teuluol. Roedd rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r flwyddyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol ar y safle yn Bronzefield, Send ac Eastwood Park; gweithwyr cymorth penodol ar gyfer teuluoedd a chaethiwed yn Low Newton; a mamau'n gallu ymuno â nosweithiau rhieni ysgol drwy alwadau fideo o Eastwood Park.

Roedd yr unedau mamau a babanod yn Eastwood Park a Bronzefield yn darparu cefnogaeth dda. Fodd bynnag, roedd oedi wrth gwblhau asesiadau gan wasanaethau plant rhai awdurdodau lleol yn ymestyn yr amser yr oedd mamau a babanod yn ei dreulio ar wahân.



O'r chwith i'r dde: ardal y tu allan yn yr uned mamau a babanod yn Eastwood Park ac ystafell mamau a menywod beichiog yn Bronzefield

Darlun cymysg o ran amser allan o'r gell

Yn Foston Hall, Send a Low Newton, roedd yr amser heb fod dan glo yn dda neu wedi gwella ers ein harolygiadau diwethaf. Yn Low Newton, roedd arweinwyr yn mynd ati i annog menywod i gymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol. Yn ein harchwiliadau o'r gofrestr yn y pum carchar y gwnaethom ymweld â nhw, roedd canran y menywod oddi ar yr adain ac yn cymryd rhan mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg yn amrywio o 33% yn Foston Hall i 54% yn Send.

Yn Eastwood Park a Bronzefield, roedd y drefn ddyddiol yn ystod yr wythnos yn aml yn cael ei chwtdogi ac, yn y rhan fwyaf o safleoedd, roedd hyn yn arbennig o amlwg dros rai penwythnosau. Yn fwy cadarnhaol, roedd defnydd da o gysylltiad gyda'r nos mewn tri o'r carchardai a darpariaeth gadarnhaol o weithgareddau hamdden a chymdeithasol yn Low Newton ac Send.

Nid yw anghenion allweddol adeg rhyddhau yn derbyn sylw ystyrlon

Roedd lefel yr angen ymysg menywod yn dal yn uchel iawn. Dywedodd 47 y cant o fenywod wrthym fod ganddynt broblem cyffuriau neu alcohol a dywedodd 82% fod ganddynt broblem iechyd meddwl. Roedd gan lawer o fenywod oedd fod i gael eu rhyddhau yn ystod y tri mis nesaf anghenion penodol: Dywedodd 73% y byddai angen help arnynt gyda llety, ac roedd gan 60% anghenion yn ymwneud â thrawma blaenorol neu barhaus (fel trais domestig). Ar ben hynny, roedd nifer y menywod oedd yn cael eu remandio neu'n cael eu galw'n ôl am gyfnod penodol byr iawn wedi cynyddu'n sylweddol, ac roeddent yn aml yn gaeth mewn patrwm o ddigartrefedd, dibyniaeth ar sylweddau, ac iechyd meddwl gwael. Dywedodd un fenyw wrthym:

Rydw i'n [ddigartref] ar y strydoedd drwy'r amser... bod yn ddigartref ydy'r prif reswm rydw i'n dod yn ôl dro ar ôl tro. **Eastwood Park**

Roedd llawer o garchardai wedi bod yn araf yn addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion menywod sy'n cael eu remandio a'u galw'n ôl. Fodd bynnag, roedd Bronzefield a Low Newton wedi dechrau eu neilltuo i reolwr troseddwyd yn y carchar i ddarparu cymorth ychwanegol ac roedd Foston Hall wedi penodi swyddog penodol yn ddiweddar i gefnogi unigolion oedd wedi cael eu galw'n ôl.

Roedd menywod oedd wedi cael eu dedfrydu yn tueddu i gael cyswllt mwy rheolaidd â'u rheolwr troseddwyd yn y carchar ac roedd gan Send ethos adsefydlu cyffredinol a oedd yn arbennig o drawiadol. Fe wnaethom barhau i ddod o hyd i ymyriadau trawiadol i fenywod ag anhwylderau personoliaeth, fel y gwasanaeth CAMEO yn Foston Hall a'r amgylcheddau cynlluniedig sy'n ystyriol o seicoleg yn Eastwood Park, Send a Low Newton, a oedd yn gaffaeliad i fenywod oedd yn aros yn hirach. Roedd rhaglen yn cael ei defnyddio'n amlach i helpu unigolion fyddai'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn y carchar, ac roedd yn gadarnhaol gweld cymorth yn cael ei roi i fenywod i ddelio â thrawma, er nad oedd hyn yn cael ei ddarparu ar raddfa a allai ateb y galw. Roeddem yn bryderus o weld bod rhai menywod wedi cael gwrthod lle mewn eiddo a gymeradwywyd gan y gwasanaeth prawf ar ôl cael eu rhyddhau, weithiau ar y funud olaf, er bod hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd.


Ac eithrio yn Low Newton, roedd y defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro yn gyfyngedig iawn, a oedd yn gyfle wedi'i golli i fenywod gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a delio â'u hanghenion adsefydlu eu hunain.

Roedd data o'r carchardai y gwnaethom eu harolygu yn dangos mai dim ond tua thraean o fenywod oedd â llety cynaliadwy ar y diwrnod roeddent yn cael eu rhyddhau ac yn Bronzefield, a oedd yn rhyddhau llawer o fenywod i Lundain, roedd chwarter yn wynebu cysgu ar y strydoedd.

Yn aml, nid oedd unman i fenywod aros y tu allan i'r carchar, oedd yn golygu nad oeddent yn gallu gofyn am gyngor gan staff, gwefru eu ffôn symudol na chwrdd â gweithwyr cymorth. Ychydig o garchardai oedd yn rhoi cymorth i fenywod gyrraedd yr orsaf fysiau neu'r orsaf drenau agosaf.

Tri

Plant yn y ddalfa



- **Roedd problemau gyda thrais, mynediad at addysg a rhestrau cadw ar wahân yn parhau i effeithio ar sefydliadau plant.**
- **Fe wnaethom gyhoeddi Hysbysiad Brys ar gyfer Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill.**

Roedd yr ystad plant yn parhau i orfod delio â thrais, mynediad cyfyngedig at addysg, perthynas wael â staff a rhestrau cadw ar wahân problemus.

Gwelwyd cynnydd mewn rhai meysydd ers ein harolygiad diwethaf o Sefydliad Troseddwy Ifanc Wetherby. Roedd y plant yn elwa o dîm adsefydlu gydag adnoddau helaeth oedd yn gweithio ar y cyd ag adrannau eraill a'r gymuned; roedd rhyddhau ar drwydded dros dro yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnal cysylltiadau teuluol a chefnogi ailintegreiddio; ac roedd llety wedi'i drefnu ar gyfer y rhan fwyaf o blant mewn da bryd cyn eu rhyddhau. Fodd bynnag, roedd gwendidau sylweddol yn parhau, yn enwedig o ran diogelwch ac addysg.

Yn Sefydliad Troseddwy Ifanc Werrington, gwelsom dîm arwain mwy sefydlog a gweithdrefnau diogelu gwell, ond roedd y berthynas rhwng staff a phlant yn wan a dim ond 3.5 awr oedd yr amser cyfartalog allan o'r gell. Roedd Sefydliad Troseddwy Ifanc Feltham yn parhau i fod yn sefydliad cythryblus oedd ddim yn ddigon diogel.


Arweiniodd ein harchwiliad o Ganolfan Hyfforddiant Diogel Oakhill ym mis Gorffennaf at Hysbysiad Brys (gweler tudalen 15). Roedd plant mewn perygl o niwed, ac roedd systemau diogelu mewn anhrefn.

Bydd esboniad llawn o ganfyddiadau ein harolygiad, dadansoddiad o'r arolwg ac adroddiadau thematig ar gael yn ein hadroddiad 'Plant yn y Ddalfa 2025-26' sydd ar y gweill.

Meithrin ymddiriedaeth: pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol mewn sefydliadau troseddwy ifanc

Mae perthynas rhwng staff rheng flaen awdurdodol sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu cefnogi'n dda a phlant, mewn lleoliadau sydd â rheolau clir, sancsiynau a chymhellion, yn hanfodol i ddarparu sefydliadau diogel lle gall plant barhau â'u haddysg a dechrau mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

Fodd bynnag, fe wnaeth ein hadolygiad thematig 'Meithrin ymddiriedaeth' ganfod fod yr amser cyfyngedig yr oedd plant yn ei dreulio allan o'u celloedd yn golygu nad oedd llawer o gyfleoedd i feithrin perthynas llawn ymddiriedaeth â staff. Yn ogystal, roedd systemau a gynlluniwyd i gefnogi perthnasoedd da yn cael eu gweithredu'n wael ac, yn ymarferol, nid oeddent yn aml yn cynnwys staff rheng flaen oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant. Er enghraifft, swyddogion cynllun cymorth cystodaeth, oedd fod i adnabod plant orau, prin oedd y rhai oedd yn mynychu cyfarfodydd ac yn aml nid oeddent yn ymwybodol o gynnwys fformwleiddiadau neu gynlluniau unigol. Nid oedd llawer o staff preswyl rheng flaen yn cael cefnogaeth a goruchwyliaeth reolaidd gan reolwyr llinell i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau.

A photograph of a prison cell interior. The walls are covered in light pink square tiles. A window with a dark metal grid is visible at the top. A built-in bench made of the same pink material is on the left side. The floor is covered in dark grey carpeting. A white rectangular object is on the bench. A semi-transparent white box with text is overlaid on the upper part of the image.

Pedwar

Cystodaeth Ilys

- **Roedd diffyg cydlynu rhwng asiantaethau yn effeithio ar ganlyniadau i garcharorion.**
- **Roedd pobl ifanc yn aml yn treulio gormod o amser yn y ddalfa, oedd yn aml yn fudr ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael.**
- **Roedd y gofal i garcharorion, yn enwedig rhai a oedd yn ddifrifol wael yn feddyliol, yn anghyson.**
- **Roedd cynllunio gwael ar gyfer rhyddhau yn golygu bod carcharorion yn aml yn gadael y ddalfa heb gael cymorth sylfaenol.**

Mae'r adran hon yn defnyddio canfyddiadau arolygiadau o gyfleusterau dalfa ar draws tair ardal llys: Thames Valley, llysoedd ynadon Llundain (roedd Serco yn darparu gwasanaethau hebrwng i'r ddalfa yn y ddau), a Swydd Lincoln, Swydd Gaerlŷr a Rutland a Swydd Northampton, lle'r oedd GEOAme y yn darparu gwasanaethau hebrwng i'r ddalfa.

Roedd y tri yn glystyrau prysur: roedd bron i 50,000 o garcharorion wedi pasio drwy lysoedd ynadon Llundain yn unig yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd diffyg gweithredu cydlynol rhwng asiantaethau cyfrifol yn methu â sicrhau cystodaeth gyson ddiogel a gweddus. Yn llysoedd ynadon Llundain, roedd llai na 60% o'n pryderon blaenorol wedi cael sylw llawn neu rannol.

Mae unigolion yn aml yn treulio gormod o amser yn y ddalfa

Roedd carcharorion yn aml yn cyrraedd y llys yn hwyr, yn gyffredinol oherwydd oedi wrth eu casglu o garchar neu o ddalfa'r heddlu, llwybrau aneffeithlon, diffyg cerbydau o faint priodol, a chiwiau i fynd i'r ddalfa a dod oddi ar gerbydau. Pan oeddent yn cyrraedd y llys, yn aml nid oeddent yn cael eu trin yn brydlon, oedd yn golygu bod llawer yn treulio mwy o amser nag oedd angen yn y ddalfa.

Cyfleusterau dalfa budr oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael



O'r chwith i'r dde: Cystodaeth llys ynadon Llundain, graffiti anweddus yn llys y goron Reading, amodau gwael yn llys y goron Northampton

Dywedwyd wrthym dro ar ôl tro fod trefniadau glanhau a chynnal a chadw yn aneffeithlon a bod cyllid ar gyfer mân welliannau hyd yn oed yn brin neu'n rhy gymhleth. Roedd cyfleusterau'n fudr yn rhy aml, ac roedd graffiti anweddus mewn llawer o gelloedd, roeddent yn anghyfforddus, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael. Roedd toiledau annigonol a diffyg mannau cyfweld preifat yn aml yn peryglu urddas y rhai sydd yn y ddalfa.

Gofal amrywiol i garcharorion

Dangosodd staff cystodaeth y llys broffesiynoldeb, tosturi a gwytnwch, gan reoli gwrthdaro'n effeithiol a chefnogi carcharorion agored i niwed yn dda. Roedd staff yn delio ag anghenion ymddygiad ac iechyd meddwl yn amyneddgar, hyd yn oed dan bwysau gweithredol parhaus. Roedd y ddarpariaeth gofal iechyd wedi gwella ac roedd camerâu corff ac ymwybyddiaeth o ddiogelu wedi cyfrannu at arferion diogel.

Fodd bynnag, nid oedd staff bob amser yn cael eu briffio'n ddigonol, nid oedd cofnodion hebrwng digidol yn aml yn cynnwys gwybodaeth bwysig, ac nid oedd carcharorion bob amser yn cael eu harchwilio pan oedd angen. Roedd chwilio a rhoi cyffion yn rheolaidd mewn rhai cyfleusterau yn dangos asesiadau risg gwan ac yn tanseilio'r berthynas dda a'r gofal oedd yn cael ei ddarparu gan staff y ddalfa.

Roedd cyfleusterau a chymorth i garcharorion ag anabledau a/neu niwrowahaniaeth yn dal yn llawer rhy gyfyngedig ac nid oedd staff yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd dros y ffôn yn gyson. Yn rhy aml, roedd y nifer fach o blant oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu cloi mewn celloedd am gyfnodau estynedig heb gyfiawnhad, cyfleusterau priodol, ymgysylltu neu ofal, weithiau hyd yn oed pan oeddent yn cael eu hebrwng gan staff wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Cefnogaeth annigonol i bobl sy'n ddifrifol wael yn feddylol

Er bod timau Cyswllt a Dargyfeirio'r GIG wedi darparu cymorth gwerthfawr i garcharorion â salwch meddwl aciwt mewn llawer o gyfleusterau, roedd rhai wedi aros yn rhy hir am asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu welyau arbenigol. Roedd prinder lleoliadau iechyd meddwl diogel yn golygu bod rhai pobl sâl iawn yn cael eu remandio i'r carchar, oedd ddim yn addas ar gyfer gofal priodol ac unigol.

Cynllunio gwael ar gyfer rhyddhau

Nid oedd risgiau uniongyrchol, fel digartrefedd, bob amser yn cael eu nodi yn ystod cyfweiliadau rhyddhau, ac roedd rhai carcharorion yn gadael y llys heb fodd i ddychwelyd adref. Roedd oedi gweinyddol yn golygu bod rhai carcharorion oedd yn cael eu rhyddhau gan y llysoedd yn gorfod aros oriau cyn y gallent adael, ac roedd gormod o ddynion a menywod oedd yn dychwelyd i'r carchar yn aml yn cyrraedd yn hwyr iawn. Roedd hyn yn lleihau'r amser oedd ar gael iddynt ymgartrefu ac i staff carchardai gwblhau prosesau diogelwch hanfodol.

The background image shows a prison courtyard. On the left is a multi-story red brick building with many windows. A paved walkway runs along the side of the building. In the center and right, there is a fenced area with multiple layers of barbed wire. In the background, another brick building with a tall chimney and a corrugated metal roof is visible under a clear blue sky.

Pump

Cadw mewnfudwyr

- Roedd ymdrechion cadarnhaol i godi safonau yn dilyn arolygiadau gwael blaenorol o ganolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr wedi cael eu sbarduno gan fuddsoddiad mewn seilwaith a staffio.
- Roedd gwendidau parhaus o ran sgrinio yn y ddalfa ac o ran prosesau ar gyfer nodi ac ymateb i fregusrwydd.
- Roedd carcharorion mewn cyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr yn cael gofal rhesymol, ond roedd gormod yn cael eu cadw am gyfnodau gormodol.
- Roedd trefniadau hebrwng dramor yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan.

Gwelliannau nodedig yn dilyn arolygiadau beirniadol

Mae'r adran hon yn defnyddio tri arolygiad llawn, yng nghanolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr Colnbrook, Dungavel a Derwentside, a'r ddau adolygiad annibynnol cyntaf o gynnydd yn yr ystad cadw mewnfudwyr yng nghanolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr Brook House a Harmondsworth.

Yn Brook House a Harmondsworth, gwelodd yr arolygwyr welliannau sylweddol mewn triniaeth ac amodau. Roedd y cynnydd yn Harmondsworth yn arbennig o drawiadol, gan ei fod yn flaenorol wedi cael y canlyniadau arolygu gwaethaf mewn canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr.

Gwelsom fod ymateb eithriadol wedi bod i ganfyddiadau negyddol ein harolygiad, gan arwain at gynnydd da mewn 11 o'n 14 maes pryder, gan gynnwys yr holl flaenoriaethau a nodwyd gennym yn yr arolygiad llawn. **Harmondsworth**



O'r chwith i'r dde: celloedd wedi'u hadnewyddu, y gell yn yr arolygiad blaenorol a chawod wedi'i hadnewyddu yn Harmondsworth

Buddsoddwyd yn sylweddol mewn staffio yn y ddau safle. Yn Harmondsworth, roedd nifer y staff wedi dyblu, gyda gwell goruchwyliaeth a chefnogaeth gan reolwyr ar yr unedau. Yn Brook House, roedd swyddogion cystodaeth carcharorion a rheolwyr rheng flaen yn fwy

gweladwy ar yr adeiniau, ac roedd arweinyddiaeth wedi cryfhau ar draws swyddogaethau allweddol gan gynnwys gofal iechyd, derbyniad a gwasanaethau lles. Roedd y canolfannau hefyd wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol, er bod problemau hirsefydlog, fel awyru gwael a diffyg mannau agored, gwyrdd, yn dal heb eu datrys.

Yn ystod yr arolygiad o Derwentside, canfu'r arolygwyr ymateb trawiadol a systematig i bryderon cynharach. Roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â diffygion llywodraethu, yn enwedig o ran goruchwyllo'r defnydd o rym. Roedd Derwentside hefyd yn llai tebyg i garchar na chanolfannau symud ymlaen eraill ar gyfer mewnfudwyr, gydag ymdrechion da i feddalu'r amgylchedd.

Fodd bynnag, nid oedd digon o staff benywaidd ar gael i gefnogi'r menywod oedd yn cael eu cadw yn Derwentside. Yn Dungavel, roedd gennym bryderon parhaus am sefyllfa'r nifer fach o fenywod oedd yn cael eu cadw yno:

... roedd menywod yn dal i gael triniaeth anghyfartal. Roedd arweinwyr yn cydnabod hyn ond nid oeddent wedi cymryd digon o gamau i fynd i'r afael â'r diffygion, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau ar symud, mynediad cyfyngedig at y drefn, a llai o gyswllt â gweithwyr proffesiynol fel y tîm lles a staff y Swyddfa Gartref na'u cymheiriaid gwrywaidd. **Dungavel**

Yn Colnbrook, er bod pryderon parhaus sylweddol yn cynnwys dyluniad tebyg i garchar y ganolfan a diffyg gallu ymysg llawer o'r staff, gwelsom arweinyddiaeth dda a gwelliannau oedd yn cynnwys gwasanaeth lles estynedig a lefelau staffio gwell yn gyffredinol.

Pryderon parhaus ynghylch carcharorion agored i niwed

Roedd Timau Ymgysylltu Dalfeydd y Swyddfa Gartref yn hygyrch ac yn cwrdd yn rheolaidd â charcharorion. Fodd bynnag, roedd gormod o garcharorion yn dal i gael eu cadw am gyfnodau gormodol, ac roedd mesurau diogelu Rheol 35 (gweler yr Eirfa) yn dal yn wan. Roedd apwyntiadau Rheol 35 yn aml yn cymryd gormod o amser, gydag aros am dair wythnos yn Brook House a phytnefnos yn Harmondsworth. Ychydig iawn o adroddiadau Rheol 35(2) (risg o hunanladdiad) a gyflwynwyd, er gwaethaf dangosyddion angen clir. Er enghraifft, dim ond wyth adroddiad a gwblhawyd yn Harmondsworth yn ystod y chwe mis cyn ein hymweliad, er bod 28 o bobl yn cael eu gwyllo'n gyson oherwydd risg uniongyrchol o hunan-niweidio yn ystod yr un cyfnod. Yn Dungavel, dim ond tri adroddiad a gyflwynwyd yn ystod y chwe mis blaenorol, er gwaethaf 36 o oruchwyliadau cyson, ac yn Colnbrook, dim ond pump a gyflwynwyd er gwaethaf 37 o oruchwyliadau cyson.

Yn ein hadolygiad o achosion diweddar, gwelsom ddwy enghraifft o staff gofal iechyd yn methu â chyflwyno adroddiad Rheol 35 pan oedd ei angen ar gyfer bwriad hunanladdol, er bod y staff yn ystyried mewn un o'r achosion hyn bod risg uchel y byddai'r carcharor yn lladd ei hun. **Colnbrook**

Mewn gormod o achosion, nid oedd penderfyniadau cadw wedi ystyried salwch meddwl, hanes o drawma, dangosyddion masnachu mewn pobl, na risg hunan-niweidio yn ddigonol.

Mewn un achos a adolygwyd gennym, dywedodd y penderfynwr nad oedd gan y carcharor unrhyw fregusrwydd hysbys, er iddo ddweud wrth staff mewnfudo fod ganddo anaf i'r ymennydd, iselder a PTSD, a chofnodion meddygol yn cadarnhau ei fod wedi cael ei asesu gydag anhawster dysgu a'i fod wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar gyfer iselder. **Brook House**

Yn Dungavel, dywedodd swyddog arestio'r Swyddfa Gartref fod menyw yn dioddef o ddiffyg maeth difrifol ac yn cael trafferth cyfathrebu. Yn y pen draw, aseswyd nad oedd ganddi alluedd meddyliol a chafodd ei derbyn i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, ar ddiwrnod ei rhoi yn y ddalfa, fe wnaeth y Porthor Cadw awdurdodi ei rhoi yn y ddalfa ar ôl derbyn atgyfeiriad a oedd yn nodi ei bod 'mewn iechyd cyffredinol da heb unrhyw bryderon ynghylch bod yn agored i niwed'. Yn yr un modd, yn Derwentside, roedd rhai menywod yn cael eu rhoi yn y ddalfa er gwaethaf dangosyddion clir fel salwch meddwl difrifol, beichiogrwydd, neu hanes o drais ar sail rhywedd.

Gofal rhesymol mewn cyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr

Cynhaliodd arolygwyr ddau arolygiad cenedlaethol o gyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr, gan gynnwys tri safle preswyl a 10 ystafell aros mewn canolfannau adrodd mewnfudo.

Yn gyffredinol, roedd cyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr preswyl yn dawel ac yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd y rhai a oedd yn cael eu cadw yno'n canmol y gofal roeddent yn ei gael. Roedd y lefelau staffio'n dda, ac roedd swyddogion ar gael yn rhwydd i helpu'r rhai oedd yn cael eu cadw yno i ateb cwestiynau. Yn Larne, gwnaeth y gefnogaeth a roddodd y grŵp staff profiadol a galluog i garcharorion argraff arbennig arnom. Prin oedd y trais a'r hunan-niweidio. Roedd gan Swinderby leoliad croesawgar gyda mannau agored da, ond roedd rhai rhannau o Larne a Manceinion yn dal yn llym.

Roedd gormod wedi cael eu cadw yn y ddalfa yn groes i derfynau amser. Er enghraifft, yn Larne, roedd 16 o bobl - gan gynnwys un fenyw a gadwyd mewn camgymeriad - wedi cael eu cadw am dros bum diwrnod, heb unrhyw arwydd bod unrhyw rai ar fin cael eu halltudio. Nid oedd menywod bob amser wedi'u gwahanu'n ddigonol oddi wrth ddynion, gan greu risgiau diogelu posibl, ac roedd oedi cyn rhoi meddyginiaeth hanfodol.

Gwelsom hefyd fod y rhai sy'n cael eu cadw yn y canolfannau adrodd yn cael eu trin yn dda ar y cyfan, ond nad oedd mynediad at awyr iach na golau naturiol yn y rhan fwyaf o leoliadau. Mewn rhai, roedd diffyg lle neu breifatrwydd ar gyfer chwiliadau a chyfweliadau. Roedd cyfleusterau i fenywod yn arbennig o wael mewn rhai lleoliadau, gan gynnwys Loughborough, lle roedd toiledau'n cael eu rhannu a menywod yn cael eu cadw gyda dynion oedd ddim yn perthyn iddynt. Ar draws pob cyfleuster cadw mewnfudwyr am gyfnod byr, nid oedd gan garcharorion fynediad i'r rhyngwrdd, ac roedd y defnydd o Gyfieithu ar y pryd proffesiynol yn rhy gyfyngedig.

Roedd trefniadau hebrwng dramor yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan

Gwnaethom gynnal arolygiad o dri hediad dramor i symud unigolion ymlaen - i India, Nigeria a Ghana, a Ffrainc - a chanfod bod pob un wedi'i drefnu a'i gynnal yn dda a gyda gofal. Roedd y rhan fwyaf o'r rhyngweithio â staff yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn barchus. Nid oedd llawer o ddefnydd o rym ond er bod gwregysau atal yn cael eu defnyddio'n briodol ar y cyfan, nid oeddent bob amser yn cael eu tynnu'n brydlon ar gyfer carcharorion oedd yn cydymffurfio.

Yr hediad i Ffrainc oedd yr arolygiad cyntaf o symudiadau 'Un i Mewn, Un Allan' a oedd yn cynnwys pobl a oedd wedi cyrraedd arfordir Caint yn ddiweddar. Roedd yr hediad hwn yn sefyll allan oherwydd ei gymhlethdod. Roedd y carcharorion yn siarad nifer o ieithoedd ond roedd y cyfieithu ar y pryd yn annigonol, gan olygu nad oedd nifer yn gallu gofyn cwestiynau na deall y broses. Ni ddarparwyd bron dim gwybodaeth am yr hyn oedd yn eu disgwyl ar ôl cyrraedd, gan ddwysáu eu pryder. Fe wnaethom hefyd nodi rhywfaint o ymddygiad amhroffesiynol ymysg staff ar y symudiad hwn.

Ar hediadau India a Nigeria a Ghana, nid oedd gan fenywod fynediad hawdd at gynnyrch mislif. Cafodd ffonau symudol hefyd eu tynnu'n rhy gynnar, gan gyfyngu ar allu carcharorion i gadw mewn cysylltiad â chynghorwyr teuluol a chyfreithiol.

Chwech

Incwm a gwariant



Incwm a gwariant - 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Incwm	£
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (carchardai a chelloedd llys)	5,429,000
Y Swyddfa Gartref (canolfan cadw mewnfudwyr)	454,339
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Tîm Comisiynu Cyfiawnder Ieuenctid (YJCT) (cadw plant dan glo)	167,444
Incwm arall (sefydliadau partner)	12,127
Cyfanswm	6,062,910

Gwariant	£	%
Costau staff ¹	5,439,016	89%
Teithio a chynhaliaeth	530,296	9%
Argraffu a deunydd ysgrifennu	17,609	0.29%
Technoleg gwybodaeth a thelegyfathrebiadau ²	14,433	0.24%
Cyfieithwyr	21,000	0.35%
Hyfforddi a datblygu	20,456	0.34%
Costau eraill (gan gynnwys costau recriwtio, cynadleddau ac aelodaeth broffesiynol) ³	43,630	0.72%
Cyfanswm	6,086,440*	100%

¹ Mae costau staff yn cynnwys: arolygwyr sy'n derbyn ffi, staff HMPPS ar fenthylg a chostau sefydliadau partner/cydarolygiadau, er enghraifft, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a chyfrannu at gefnogaeth ysgrifenyddol Cyd Grŵp Prif Arolygwyr yr Arolygiad Cyfiawnder Troseddol.

² Mae costau TG yn cynnwys: adnewyddu caledwedd sganio a thrwyddedau i feddalwedd (SPSS a SNAP a ddefnyddir gan ymchwilyr i brosesu a dadansoddi data arolwg).

³ Mae costau eraill yn cynnwys: ffioedd cyfreithiol ymchwiliadau cyhoeddus i Covid-19 a chyfleuster cadw mewnfudwyr am gyfnod byr Manston

Saith

Atodiadau



Atodiad un

Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Sefydliad	Cyfnod arolygu	Dyddiad cyhoeddi
Nottingham - IRP	24-26 Chwefror 2025	07 Ebrill 2025
Harmondsworth - IRP	17-19 Chwefror 2025	08 Ebrill 2025
Guys Marsh	6-16 Ionawr 2025	15 Ebrill 2025
Brixton - IRP	3-5 Mawrth 2025	22 Ebrill 2025
Parc	6-17 Ionawr 2025	23 Ebrill 2025
Foston Hall	13-30 Ionawr 2025	29 Ebrill 2025
Berwyn	27 Ionawr - 07 Chwefror 2025	06 Mai 2025
Cystodaeth Ilys Thames Valley	3-15 Mawrth 2025	06 Mai 2025
Colnbrook IRC	20 Ionawr - 06 Chwefror 2025	12 Mai 2025
Thameside	3-13 Chwefror 2025	12 Mai 2025
Wandsworth - IRP	31 Mawrth - 2 Ebrill 2025	12 Mai 2025
Ranby	10-20 Chwefror 2025	19 Mai 2025
Belmarsh - IRP	7-9 Ebrill 2025	19 Mai 2025
Hull - IRP	14-16 Ebrill 2025	27 Mai 2025
Erlestoke - IRP	22-24 Ebrill 2025	02 Mehefin 2025
Warren Hill	3-21 Chwefror 2025	03 Mehefin 2025
Fosse Way	10-20 Mawrth 2025	09 Mehefin 2025
Elmley	26-27 Chwefror a 10-13 Mawrth 2025	16 Mehefin 2025
Garth - IRP	12-14 Mai 2025	16 Mehefin 2025
Lodham Grange	3-14 Mawrth 2025	17 Mehefin 2025
Hebrwng a symud unigolion i India	25 a 26 Mawrth 2025	23 Mehefin 2025
Anfon	17 Mawrth - 3 Ebrill 2025	01 Gorffennaf 2025
Haverigg	31 Mawrth - 10 Ebrill 2025	15 Gorffennaf 2025

Sefydliad	Cyfnod arolygu	Dyddiad cyhoeddi
Pentonville - Hysbysiad Brys	30 Mehefin - 10 Gorffennaf 2025	18 Gorffennaf 2025
Rochester - IRP	2-4 Mehefin 2025	21 Gorffennaf 2025
Hebrwng a symud unigolion i Nigeria a Ghana	24-25 Ebrill 2025	21 Gorffennaf 2025
Sefydliad Troseddwyd Ifanc Werrington	15 Ebrill - 2 Mai 2025	28 Gorffennaf 2025
Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill - Hysbysiad Brys	21-25 Gorffennaf 2025	31 Gorffennaf 2025
Lincoln	28 Ebrill - 15 Mai 2025	04 Awst 2025
Onley	6-22 Mai 2025	04 Awst 2025
Brynbuga/Prescoed	12-22 Mai 2025	12 Awst 2025
Sefydliad Troseddwyd Ifanc Feltham	20 Mai - 5 Mehefin 2025	26 Awst 2025
Kirkham - IRP	28-30 Gorffennaf 2025	01 Medi 2025
Brook House - IRP	29-31 Gorffennaf 2025	01 Medi 2025
Cystodaeth llys Swydd Gaerlŷr, Swydd Lincoln, Swydd Northampton a Rutland	23 Mehefin - 5 Gorffennaf 2025	01 Medi 2025
Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill	21-25 Gorffennaf 2025	03 Medi 2025
Wormwood Scrubs	9-19 Mehefin 2025	08 Medi 2025
Lewes	9-19 Mehefin 2025	08 Medi 2025
Hewell	2-12 Mehefin 2025	15 Medi 2025
Eastwood Park	17 Mehefin - 3 Gorffennaf 2025	22 Medi 2025
Wakefield	30 Mehefin - 10 Gorffennaf 2025	29 Medi 2025
Cyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr yn Larne House, Manceinion a Swinderby	7-11 Gorffennaf 2025	29 Medi 2025
Pentonville	30 Mehefin - 10 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025

Sefydliad	Cyfnod arolygu	Dyddiad cyhoeddi
Altcourse	7-18 Gorffennaf 2025	06 Hydref 2025
Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill	9-10 Medi 2025	14 Hydref 2025
Leeds	14-24 Gorffennaf 2025	21 Hydref 2025
Bullingdon	28 Gorffennaf - 7 Awst 2025	27 Hydref 2025
Bronzefield	4-14 Awst 2025	03 Tachwedd 2025
Lerpwl	11-21 Awst 2025	10 Tachwedd 2025
Caerlŷr	5 a 18-25 Awst 2025	17 Tachwedd 2025
Deerbolt - IRP	13-15 Hydref 2025	17 Tachwedd 2025
Ranby - IRP	20-22 Hydref 2025	24 Tachwedd 2025
Dungavel IRC	18-21 Awst a 1-4 Medi 2025	01 Rhagfyr 2025
Feltham B	1-11 Medi 2025	01 Rhagfyr 2025
Northumberland	27 Awst - 12 Medi 2025	02 Rhagfyr 2025
Doncaster	8-18 Medi 2025	08 Rhagfyr 2025
Guys Marsh - IRP	3-5 Tachwedd 2025	08 Rhagfyr 2025
Derwentside IRC	15 Medi a 3 Hydref 2025	06 Ionawr 2026
Featherstone	23 Medi a 9 Hydref 2025	12 Ionawr 2026
Birmingham	6-16 Hydref 2025	19 Ionawr 2026
Canolfannau adrodd mewnfudo	20-29 Hydref 2025	19 Ionawr 2026
Foston Hall - IRP	8-10 Rhagfyr 2025	26 Ionawr 2026
Whitemoor	13-23 Hydref 2025	02 Chwefror 2026
Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Wetherby	27 Hydref - 6 Tachwedd 2025	09 Chwefror 2026
Hebrwng a symud unigolion i Baris	12 Tachwedd 2025	09 Chwefror 2026
Adolygiad annibynnol o gynnydd Parc	5-7 Ionawr 2026	16 Chwefror 2026
Onley IRP	6-8 Ionawr 2026	16 Chwefror 2026
Cystodaeth llys Ynadon Llundain	17 Tachwedd - 6 Rhagfyr 2025	16 Chwefror 2026

Sefydliad	Cyfnod arolygu	Dyddiad cyhoeddi
Thameside - IRP	12-14 Ionawr 2026	23 Chwefror 2026
Coldingley	10-20 Tachwedd 2025	23 Chwefror 2026
Low Newton	10-20 Tachwedd 2025	24 Chwefror 2026
Isis	18 Tachwedd - 4 Rhagfyr 2025	09 Mawrth 2026
Caerwysg	18 Tachwedd - 4 Rhagfyr 2025	09 Mawrth 2026
Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill	3-4 Chwefror 2026	10 Mawrth 2026
Woodhill - Hysbysiad Brys	2-12 Mawrth 2026	19 Mawrth 2026
Swaleside	1-11 Rhagfyr 2025	19 Mawrth 2026
Maidstone	1-11 Rhagfyr 2025	23 Mawrth 2026
Magilligan	9-26 Medi 2025	26 Mawrth 2026
Elmley - IRP	16-18 Chwefror 2026	30 Mawrth 2026

Atodiad dau

Adnoddau a chyfeiriadau pellach

Mae holl adroddiadau Arolygiaeth Carchardai EF a gyhoeddwyd yn 2025/26, disgwyliadau a methodoleg arolygu wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Hefyd, gallwch ddod o hyd i asesiadau sefydliadau iach, nifer y pryderon sy'n cael eu derbyn a'u trin gan sefydliadau, a dadansoddiadau o ymatebion arolwg ar gyfer carchardai dynion a menywod sy'n oedolion, sefydliadau plant a chanolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr, sy'n mynd â'r adroddiad hwn, ar ein gwefan:

hmiprisons.justiceinspectrates.gov.uk

Mae ystadegau diogelwch mewn dalfeydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/safety-in-custody-statistics>

Atodiad tri

Geirfa

ACCT

Asesiad, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm; rheoli achosion ar gyfer carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio.

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Y Comisiwn Ansawdd Gofal yw rheoleiddiwr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae'n monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau sylfaenol ansawdd a diogelwch. I gael gwybodaeth am safonau gofal y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r camau y mae'n eu cymryd i wella gwasanaethau, ewch i: <http://www.cqc.org.uk>

Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)

System HMPPS sy'n cael ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli carcharorion sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

GLITEF

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi.

HMPPS

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

Adolygiad annibynnol o gynnydd (IRP)

Ymweliad dilynol byr i ddarparu tystiolaeth annibynnol ynghylch faint o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion yn dilyn pryderon o arolygiadau blaenorol.

Canolfan Symud Ymlaen ar gyfer Mewnfudwyr

Canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr.

Arweinydd

Unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros arwain neu reoli.

Ofsted

Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau.

POM

Rheolwr troseddwyd yn y carchar.

Carcharorion ar remand

Carcharorion nad ydynt wedi mynd gerbron y llys eto ac nad ydynt felly wedi cael eu

dyfarnu'n euog. Os nad oes pryderon o ran diogelwch, bydd gan garcharor ar remand nifer o hawliau a breintiau arbennig, gan gynnwys derbyn llythyrau ac ymweliadau ychwanegol, peidio â gorfod rhannu cell â charcharor a gafwyd yn euog, a pheidio â gweithio oni bai ei fod yn dewis gwneud hynny. Fel arfer, mae carcharorion ar remand yn cael eu cadw mewn carchardai categori B lleol.

Rheol 35 Rheolau Canolfan Gadw

Mae angen hysbysu Gwasanaeth Mewnfudo a Gorfodi'r Swyddfa Gartref os yw'n debygol y bydd cyfnod yn y ddalfa'n cael effaith niweidiol ar iechyd yr unigolyn, gan gynnwys os yw'n bosibl ei fod wedi dioddef artaith.

STC

Canolfan hyfforddi ddiogel.

STHF

Cyfleuster cadw mewnfudwyr am gyfnod byr.

Amser allan o'r gell

Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd i gysylltu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

Hysbysiad Brys

Pan fydd arolygiad yn canfod pryderon sylweddol am y driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai a gedwir dan glo, gall y Prif Arolygydd roi Hysbysiad Brys i'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn saith diwrnod calendr yn nodi'r rhesymau dros bryderon ac yn nodi materion y mae angen eu gwella. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymrwymo i ymateb yn gyhoeddus i'r pryderon a godwyd cyn pen 28 diwrnod calendr.

Sefydliad Troseddwyr Ifanc

Sefydliad troseddwyr ifanc.

